# Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant Cryno

# CYSUR 1/2024

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd:**

**15 Gorffennaf 2025**

**Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant**

**CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Parthed:
CYSUR 1 2024**

**Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

*I'w cynnwys yma:*

- *Cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â hwy*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a adolygwyd a'r rheswm dros hynny*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*

**Y cyd-destun cyfreithiol**

Comisiynwyd adolygiad ymarfer plant cryno gan CYSUR, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[1] a'r ddeddfwriaeth statudol gysylltiedig yn adran 139 o'r canllawiau yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant' (Llywodraeth Cymru, 2016).[2]

Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u bodloni o dan Bennod 6, Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno:

Rhaid i fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant **cryno** yn unrhyw un o'r achosion canlynol:
yn ardal y bwrdd, mae cam-drin neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau, ac mae'r plentyn:

- Wedi marw; neu
- Wedi cael anaf parhaus a allai beryglu ei fywyd; neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**

- nid oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu roedd yn blentyn sy'n derbyn gofal (gan gynnwys unigolyn sydd wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed ond a oedd yn blentyn sy'n derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y chwe mis cyn –
    - Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
    - Y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol[3] fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer plant wedi'u nodi yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a
Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.[4]

---

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

[2] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)

[3] Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw person neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004 neu gorff a gaiff ei grybwyll yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

[4] Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

Nododd yr adolygiad ymarfer plant cryno hwn wersi a fydd o fudd i ymarfer yn y dyfodol. Roedd yn cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion a archwiliodd fanylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda Phlentyn A a'i deulu. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn creu dysgu proffesiynol a sefydliadol i hyrwyddo gwelliant mewn arferion rhyngasiantaethol yn y dyfodol gyda phlant a theuluoedd. Mae'n cynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, gan amlygu ymarfer effeithiol a pha gamau gweithredu a allai wella ymarfer yn y dyfodol (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)).[5]

Mae cylch gorchwyl yr adolygiad ymarfer plant cryno hwn yn <u>**Atodiad 1**</u>.

**Rhaglith**

Mae llofruddiaeth gan fam, pan fydd mam yn lladd ei phlentyn, yn ddigwyddiad prin, syfrdanol a gofidus iawn. Er bod y tebygolrwydd y bydd yn digwydd yn isel, nid oes modd dadwneud y canlyniadau, gan gael effaith barhaus ar unrhyw frodyr a chwiorydd sy'n goroesi, rhieni, y teulu estynedig, yr ymarferwyr dan sylw, a'r gymuned ehangach. Pan fydd llofruddiaeth gan fam yn digwydd mewn ymateb i bennod seicotig, gall diffyg rhagfwriad atal y rhiant, aelodau'r teulu ac asiantaethau cyhoeddus rhag nodi'r risg bosibl i fywyd.[6]

Gall cysylltiad y risg ag iselder, rhieni'n gwahanu, trais domestig a chamddefnyddio sylweddau gynorthwyo gyda'r gwaith o'i nodi.[7]Fodd bynnag, nid oes gan lawer o fenywod sy'n achosi marwolaeth eu plant ddiagnosis blaenorol o salwch meddwl, gan wneud canfod cynnar yn anoddach fyth.[8] Yn wir, nid oedd Mrs X wedi cyflwyno ei hun i wasanaethau iechyd meddwl cyn marwolaeth ei mab, yng Nghymru nac yn Lloegr, er mwyn caniatáu i asesiad gael ei gynnal.

Daeth adolygiad o adolygiadau achosion difrifol blaenorol yn Lloegr[9] yn dilyn digwyddiadau o lofruddiaeth plant gan famau i'r casgliad, oherwydd natur y ffenomen, efallai nad oes modd ei hatal yn llwyr. Serch hynny, mae datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r amgylchiadau y mae trasiedïau o'r fath yn digwydd ynddynt yn hanfodol i wella ein gallu i nodi risg bosibl a diogelu plant.

**Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

Un bore ym mis Ionawr 2024, fe gafodd yr heddlu alwad ffôn gan Mrs X yn adrodd ei bod hi wedi achosi marwolaeth ei mab saith oed, Plentyn A. Aeth yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans i gartref y teulu. Yn drasig, er gwaethaf ymdrechion helaeth i adfywio Plentyn A, yn anffodus fe gyhoeddwyd ei fod wedi marw yn fuan ar ôl iddo gyrraedd yr ysbyty. Gwnaeth y gwasanaethau brys a aeth at Blentyn A ym mis Ionawr bob ymdrech i'w adfywio ac amddiffyn ei frawd neu chwaer ar yr un pryd.

Y diwrnod cynt, fe gysylltodd aelod o'r cyhoedd â'r awdurdod lleol i roi gwybod am bryderon ynghylch iechyd meddwl Mrs X, a oedd wedi dirywio dros yr wythnos flaenorol. Dywedodd y galwr

---

[5] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)

[6] Stanton, J., Simpson, A., a Wouldes, T. (2000). A qualitative study of filicide by mentally ill mothers. *Child Abuse & Neglect*, *24*(11), 1451–1460. https://doi.org/10.1016/S0145-2134(00)00198-8

[7] Brown, T., Tyson, D., ac Arias, P. F. (2014). Filicide and Parental Separation and Divorce. *Child Abuse Review* (Chichester, Lloegr: 1992), 23(2), 79–88. https://doi.org/10.1002/car.2327

[8] Porter, T., a Gavin, H. (2010). Infanticide and Neonaticide: A Review of 40 Years of Research Literature on Incidence and Causes. Trauma, Violence & Abuse, 11(3), 99–112. https://doi.org/10.1177/1524838010371950

[9] Sidebotham, P., a Retzer, A. (2019). Maternal filicide in a cohort of English Serious Case Reviews. *Archives of Women's Mental Health*, *22*(1), 139–149. https://doi.org/10.1007/s00737-018-0820-7

fod mam y plant wedi dweud wrthyn nhw am beidio â chyffwrdd â'r glaswellt oherwydd ei fod yn wenwynig a bod gan y ganolfan hamdden ysbïwyr.

Cyfaddefodd Mrs X ddynladdiad ei mab ar sail cyfrifoldeb lleihaedig. Daeth yr achos troseddol yn erbyn Mrs X i'r casgliad ei bod hi'n debygol o ddioddef o sgitsoffrenia paranoid adeg marwolaeth ei mab. Rhoddwyd gorchymyn oes amhenodol i Mrs X.

**Cyfnod yr adolygiad a pham**

Roedd yr amserlen y cytunwyd arni ar gyfer yr adolygiad hwn yn dilyn canllawiau ar gyfer adolygiadau ymarfer plant. Argymhellodd y panel adolygu 24 mis (10 Ionawr 2022 – 10 Ionawr 2024) er mwyn sicrhau bod digwyddiadau teuluol arwyddocaol yn cael eu cynnwys. Cyn ei gychwyn, roedd yr adolygiad yn aros am ganlyniadau'r achos troseddol ynghylch Mrs X a marwolaeth ei mab.

**Gwybodaeth gyd-destunol berthnasol**

Penderfynodd yr adolygiad ei bod yn briodol ystyried gwybodaeth gyd-destunol berthnasol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn Lloegr, lle'r oedd Plentyn A yn byw gyda'i deulu cyn iddynt symud i Gymru ym mis Ebrill 2022. Roedd y cyd-destun hwn wedi caniatáu dealltwriaeth o brofiadau Plentyn A a'i deulu, gan ddarparu manylion defnyddiol i gefnogi'r pwyntiau dysgu a nodwyd yn yr adolygiad hwn.

Roedd Plentyn A yn blentyn hapus a deallus a oedd wrth ei fodd yn chwarae gyda Lego; roedd yn frwdfrydig am gwisiau ac wedi'i swyno gan y bydysawd, y planedau a'r gofod. Roedd yn agos at ei frawd neu chwaer, a threuliodd ei holl amser gyda nhw. Ganwyd Plentyn A a'i frawd/chwaer hŷn mewn gwlad arall ar ôl i'w tad o Loegr gwrdd â'u mam yn ystod gwyliau. Priododd Mr a Mrs X a daethant i fyw yn Lloegr yn fuan ar ôl i'w plentyn cyntaf gael ei geni. Fe wnaethon nhw ddychwelyd am gyfnod byr i wlad wreiddiol Mrs X ar gyfer genedigaeth Plentyn A. Felly, roedd gan Blentyn A ddinasyddiaeth ddeuol.

Yr unig gymorth teuluol yn Lloegr oedd gan rieni Mr X, Mr a Mrs Y, a oedd wedi bod yn ffynhonnell cymorth ariannol sylweddol i'r cwpl, ac roedd y teulu'n byw gyda nhw ar wahanol adegau. Bu cyfnodau pan oedd Mr X yn dreisgar tuag at Mrs X yn ei gwlad wreiddiol ac yn Lloegr. Ym mis Hydref 2017, pan oedd y teulu'n byw gyda Mr a Mrs Y yn Lloegr, fe gafodd Mr X ei arestio a'i gyhuddo ar ôl i Mrs X roi gwybod am gam-drin domestig sylweddol gan Mr X. Honnodd Mrs X hefyd fod ymddygiad Mr X ym mhresenoldeb y plant wedi bod yn gamdriniol.

Roedd gan Mrs X fisa priodasol a oedd i ddod i ben ym mis Chwefror 2018; ni roddwyd cymorth arian cyhoeddus iddi. Gofynnodd Mrs X i'w theulu yng nghyfraith am arian i ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol gyda'r plant. Llwyddodd Mr X i gael gorchymyn camau gwaharddedig[10] gan y llys teulu i atal y plant rhag cael eu symud o'r DU. Oherwydd eu profiad o gam-drin domestig, daeth Plentyn A a'i frawd neu chwaer yn destun cynllun amddiffyn plant. Darparodd yr awdurdod lleol yn Lloegr lety diogel i Mrs X a'i phlant bach mewn lloches i ddioddefwyr cam-drin domestig. Gwadodd Mr X yr honiadau o gam-drin, gan ddatgan bod ei wraig wedi gwneud yr honiadau hyn i gryfhau ei statws cyfreithiol i aros yn y wlad.

Ddeufis yn ddiweddarach, adroddodd Mrs X ei bod yn ei chael hi'n anodd gofalu am ei phlant ar ei phen ei hun a chafodd wybod bod amodau'r mechnïaeth yn atal Mr X rhag cysylltu â hi. Esboniodd Mr X fod ei ymddygiad camdriniol oherwydd y straen sylweddol a brofodd yn ystod achos llys hirfaith i sicrhau hawl Mrs X i aros yn y wlad drwy gywiro gwall gyda'r fisa priodasol. Plediodd Mr X yn euog i ymosod ar ei wraig ac ailddechreuodd fyw gyda hi a'u plant. Ar ôl ailymuno, ni welodd y rhieni unrhyw reswm dros barhau i ymwneud â'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd y plant yn parhau i fod yn destun cynllun amddiffyn plant ac ymwelwyd â nhw bob pythefnos. Adolygodd yr awdurdod lleol yn Lloegr y cynllun amddiffyn plant ar 16 Awst 2018 ac ar y pryd ystyriwyd bod y plant yn blant mewn angen. Fe barhaodd yr awdurdod lleol i ymwneud â'r

[10] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1989/41/contents

teulu tan 21 Medi 2018. Drwy gydol y cyfnod hwnnw, cofnododd yr awdurdod lleol ymddygiadau ymlyniad cadarnhaol y plant tuag at eu mam, gan nodi hefyd y cartref teuluol yr oedd Mr a Mrs X yn ei greu gyda chymorth Mr a Mrs Y. Ym mis Ionawr 2019, rhoddodd Mr X wybod i'r awdurdod lleol yn Lloegr o'i fwriad i wneud cais i ddileu'r gorchmynion camau gwaharddedig gan fod y teulu'n bwriadu teithio i wlad wreiddiol Mrs X.

Ym mis Chwefror 2020, cysylltodd Mr X â'i feddyg teulu yn Lloegr ar ôl i Blentyn A, yn ôl y sôn, daro ei ben yn y feithrinfa. Roedd ganddo grafiad bach ar ei ben ac roedd cornel ei lygad ychydig yn waedlyd. Roedd Mrs X yn poeni am lygad Plentyn A; nid oedd Mr X yn poeni ond roedd eisiau sicrwydd. Darparwyd cyngor. Wythnos yn ddiweddarach, gwelwyd Plentyn A pan gafodd ei ddos atgyfnerthu o MMR, ac ni nodwyd unrhyw bryderon ynghylch ei gyflwyniad.

Ar 20 Hydref 2021, rhoddodd yr awdurdod lleol yn Lloegr wybod i'r heddlu am atgyfeiriad diogelu a oedd wedi dod i law yn mynegi pryder bod Mr a Mrs Y mewn perygl o gam-drin ariannol gan Mr X. Yn ôl y sôn, roedd Mr a Mrs Y wedi ceisio benthyca swm sylweddol o arian i brynu cartref i'w mab a'i deulu yng Nghymru. Fodd bynnag, credid bod gan Mr Y ddementia ac efallai nad oedd ganddo'r gallu i wneud rhai penderfyniadau. Ni wnaeth yr heddlu ymateb i'r pryder ar y pryd.

Ar 27 Hydref 2021, ymatebodd yr heddlu yn Lloegr i alwad gan Mrs X yn dilyn dadl gyda'i gŵr ar ôl iddynt fethu â phrynu eu tŷ. Ymwelodd yr heddlu â chartref y teulu a chanfod bod y plant yn cael eu haddysgu yn y cartref (ar ôl gadael eu hysgol flaenorol ym mis Medi 2021); gwelodd yr heddlu lawer o deganau yn y tŷ blêr. Roedd yr heddlu'n ymwybodol o'r pryderon blaenorol ynghylch cam-drin domestig ac amddiffyn plant a gofynnwyd i'r awdurdod lleol yn Lloegr gwblhau asesiad o unigolyn agored i niwed. Nid oes unrhyw dystiolaeth o dderbyn y cais hwn ar linell amser yr awdurdod lleol.

**Amserlen o ddigwyddiadau yng Nghymru a Lloegr**

Yn ystod cyfnod yr adolygiad, symudodd y teulu rhwng dau awdurdod lleol, un yng Nghymru a'r llall yn Lloegr. Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan Gymru gan fod marwolaeth Plentyn A wedi digwydd yn ei hawdurdodaeth. Yn ystod y rhan fwyaf o'r llinell amser, roedd Plentyn A a'i frawd/chwaer yn cael eu haddysgu yn y cartref ac roeddent yn ymwneud o bryd i'w gilydd ag awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Felly, nid yw union ddyddiadau cyrraedd ac ymadael y teulu ym mhob ardal yn hysbys, ond gellir eu hamcangyfrif yn rhesymol yn seiliedig ar gofnodion achosion. Llwyddodd yr adolygiad i nodi'r hanes canlynol:

| | |
|---|---|
| Lloegr | Ionawr 2022 – Ebrill 2022 |
| Cymru | Ebrill 2022 – Mai 2022 |
| Lloegr | Mai 2022 – Awst 2022 |
| Cymru | Medi 2022 – Medi 2023 |
| Lloegr | Medi 2023 – Tachwedd 2023 |
| Cymru | Tachwedd 2023 – Ionawr 2024 |

<u>Lloegr</u>

Ar ddechrau'r llinell amser, ym mis Ionawr 2022, roedd y teulu'n byw yn Lloegr ac roedd Plentyn A a'i frawd/chwaer yn cael addysg ddewisol yn y cartref. Ym mis Chwefror 2022, anfonodd Mrs X neges e-bost at y tîm addysg ddewisol yn y cartref i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo ynghylch addysg yn y cartref ei phlant. Ar 22 Ebrill 2022, fe gafodd yr heddlu yn Lloegr alwad gan Mrs Y ar ôl i Mr X ymosod ar ei rieni yn eu cartref. Cafodd Mr X ei arestio ar amheuaeth o achosi niwed corfforol difrifol o dan adran 18 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861.[11]

[11] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Vict/24-25/100/section/18

Honnodd Mr X hefyd ar yr adeg hon ei fod wedi cam-drin ei blant. Barnwyd nad oedd galluedd gan Mr X a chafodd ei gadw mewn cyfleuster iechyd meddwl diogel yn Lloegr.

Yn ddiweddarach yn yr amserlen, cydnabu'r heddlu yn Lloegr gyfleoedd a gollwyd i amddiffyn Mr Y a chwblhaodd adolygiad diogelu oedolion dewisol yn unol â Deddf Gofal 2014.[12]

Cymru

Ddydd Sadwrn, 23 Ebrill 2022, adroddodd Mrs X i'r heddlu fod ei gŵr ar goll. Esboniodd fod y teulu newydd symud i Gymru a bod ei gŵr wedi dychwelyd i gartref ei rieni yn Lloegr i nôl rhai o'u heiddo. Ymwelodd yr heddlu yng Nghymru â Mrs X yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw i roi gwybod iddi am yr ymosodiad. Ar 24 Ebrill, rhoddodd yr heddlu yn Lloegr wybod i wasanaeth y tu allan i oriau yr awdurdod lleol yng Nghymru fod Mr X wedi'i arestio a'i fod wedi honni ei fod wedi cam-drin ei blant yn y gorffennol. Cysylltodd Mrs X â'r heddlu hefyd i roi gwybod bod ei gŵr wedi datgelu ychydig ddyddiau ynghynt ei fod wedi cam-drin eu plant pan oeddent yn fabanod.

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, cysylltodd Mrs X â'r heddlu yng Nghymru i roi gwybod ei bod wedi cael ei cham-drin yn seicolegol ac yn emosiynol gan Mr a Mrs Y ym mis Hydref 2021. Dywedodd hefyd ei bod wedi bod yn dioddef cam-drin domestig gan Mr X. Nododd yr heddlu yng Nghymru nad oedd Mrs X wedi gwneud yr honiadau hyn yn ystod eu hymweliad y diwrnod cynt. Fodd bynnag, fe wnaethant drafod yr honiadau â Mrs X, a eglurodd ei bod yn rhoi gwybod am y rhain i'r heddlu yn Lloegr.

Ar ôl cael yr wybodaeth uchod, fe gynhaliwyd trafodaeth strategaeth a chychwynnodd yr awdurdod lleol yng Nghymru ymholiadau amddiffyn plant yn unol ag adran 47 o Ddeddf Plant 1989.[13]Cysylltodd yr awdurdod lleol yng Nghymru â'r awdurdod lleol yn Lloegr i gael rhagor o fanylion. Cynhaliwyd ymweliad ar y cyd gan yr heddlu a gwasanaethau plant yng Nghymru; siaradwyd â Phlentyn A a'i frawd/chwaer ac ni wnaethant unrhyw honiadau na datgeliadau. Dywedodd Mrs X nad oedd hi wedi gweld ei gŵr yn ymddwyn yn amhriodol tuag at eu plant.

Y diwrnod canlynol, ar 26 Ebrill 2022, fe gynhaliwyd trafodaeth strategaeth adolygu, gyda'r bwriad i'r awdurdod lleol yng Nghymru gwblhau asesiad cynhwysfawr o anghenion y teulu. Yr wythnos ganlynol, cyn i'r asiantaethau yng Nghymru allu cwblhau eu hymholiadau, fe ddychwelodd Mrs X a'r plant i gartref eu nain a'u taid ar ochr y tad yn Lloegr, heb hysbysu'r awdurdod lleol yng Nghymru.

Lloegr

Ar 4 Mai 2022, cysylltodd yr awdurdod lleol yn Lloegr â'r awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ynghylch hanes blaenorol y teulu yn Lloegr. Ar 15 Mai 2022, cysylltodd Mrs X â'r heddlu yn Lloegr i gwyno bod Mr a Mrs Y yn ei cham-drin yn ariannol ac i wneud cwyn yn erbyn yr awdurdod lleol. Ymwelodd yr heddlu â Mrs X ac roeddent yn bryderus am ei hiechyd meddwl, amodau'r cartref, ac ymddygiadau gan y plant a oedd yn awgrymu oedi mewn datblygiad posibl. Rhannodd yr heddlu yn Lloegr asesiad o unigolyn agored i niwed i rybuddio'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn Lloegr am eu pryderon.

Cofnododd yr awdurdod lleol yn Lloegr ei fod wedi cael yr asesiad ddydd Iau, 19 Mai 2022, a nododd ymwneud adran 47 presennol yr awdurdod lleol yng Nghymru, cyn dychwelyd yr asesiad[14] i'r heddlu yn Lloegr i'w anfon ymlaen i'r awdurdod lleol yng Nghymru. Yna rhoddodd yr awdurdod lleol yn Lloegr y gorau i'w ymwneud. Ar yr un pryd, ar ôl cael yr asesiad, fe wnaeth y bwrdd iechyd yn Lloegr ymdrechion i ddod o hyd i'r teulu, gan ganfod bod Plentyn A wedi'i gofrestru â meddyg teulu yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd ei fam a'i frawd/chwaer wedi cofrestru â meddyg teulu

[12] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/23/contents

[13] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1989/41/contents

[14] Yr hyn sy'n cyfateb i asesiad o unigolyn agored i niwed yng Nghymru yw Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd.

yn Lloegr. Ar 23 Mai, ar ôl dim ond darparu gwybodaeth i'r awdurdod yng Nghymru ar 4 Mai, roedd yr awdurdod lleol yn Lloegr o'r farn bod y teulu'n byw yng Nghymru a rhoddodd wybod am hyn i'r bwrdd iechyd lleol. Digwyddodd nifer o ryngweithiadau ar 23 Mai rhwng y byrddau iechyd yng Nghymru a Lloegr a'r awdurdod lleol yn Lloegr, a sefydlwyd bod y teulu'n byw yn Lloegr gyda Mr a Mrs Y.

Ar 25 Mai, cynhaliodd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn Lloegr ymweliad ar y cyd o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, a chanfuwyd bod y plant yng ngofal gwasanaeth gofal plant yn y cartref. Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch lles y plant. Ar 26 Mai, ymwelodd yr awdurdod lleol yn Lloegr â'r teulu ac, er nad oedd unrhyw bryderon diogelu uniongyrchol, nodwyd bod gan Blentyn A a'i frawd neu chwaer ddiffyg sgiliau cymdeithasol, ffiniau ac addysg ffurfiol.

Ar 27 Mai, rhoddodd yr awdurdod lleol yng Nghymru y gorau i'w ymwneud â'r teulu, gan gofnodi bod asesiad cynhwysfawr wedi'i gwblhau, a bod yr wybodaeth adran 47 wedi'i throsglwyddo i'r awdurdod lleol yn Lloegr. Ar yr un diwrnod, mae gweithiwr cymdeithasol Mr X yn cofnodi atgyfeiriad a wnaed i'r awdurdod lleol yn Lloegr gan y cyfleuster iechyd meddwl yn Lloegr ynghylch pryderon ynghylch lles y plant, fel y nodwyd gan yr awdurdod lleol yng Nghymru a'r heddlu.

Drwy gydol mis Mehefin, parhaodd yr awdurdod lleol yn Lloegr â'i ymholiadau adran 47 gyda Mrs X, Mr X a'u plant. Ar un achlysur, fe wnaethant ddod o hyd i'r plant yng ngofal gwarchodwr plant proffesiynol a oedd newydd gyfarfod â nhw ac wedi gofalu amdanyn nhw gan nad oedd disgwyl i Mrs X ddychwelyd o'r gwaith tan 9 pm. Ar 30 Mehefin, rhoddodd yr heddlu yn Lloegr wybod i'r awdurdod lleol fod Mr X wedi'i gadw yn y ddalfa o dan adran 48 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a'i fod wedi'i wahardd rhag cael cysylltiad â Mrs X a'i gydberthnasau ar ochr ei dad. Cefnogodd yr awdurdod lleol Mrs X i osod y plant mewn ysgol gynradd leol, lle gwnaethant ddechrau ar 4 Gorffennaf 2022.

Ar 6 Gorffennaf 2022, mynegodd yr awdurdod lleol bryder i Mrs X ynghylch newidiadau cyfeiriad ac awgrymodd ei bod wedi arddangos ymddygiad osgoi; ymatebodd drwy adrodd ei bod yn ofni ymyrraeth broffesiynol. Yr un diwrnod, gofynnodd Mrs X a Mrs Y am gael cyfarfod â'r ysgol. Aethant i'r cyfarfod hwnnw, gan ddarparu gwybodaeth gyd-destunol am eu hamgylchiadau teuluol a mynegi pryder ynghylch cyfraniad yr awdurdod lleol. Anogodd yr ysgol Mrs X i ymgysylltu'n llawn â'r awdurdod lleol.

Ar ddechrau mis Awst, rhoddodd Mrs X wybod i'r awdurdod lleol yn Lloegr ei bod yn mynd â'r plant ar wyliau a gofynnodd am rybudd o dri diwrnod ar gyfer unrhyw ymweliadau yn y dyfodol. Ar 10 Awst 2022, siaradodd rheolwr yr awdurdod lleol yn Lloegr â Mrs X yn dilyn ei chŵyn ynghylch cyfathrebu parchus, pan oedd wedi gofyn am gael ei chyfarch fel Mrs X. Rhoddodd yr awdurdod lleol y gorau i'w ymwneud ar yr un diwrnod ar ôl penderfynu bod y plant yn ddiogel yng ngofal Mrs X gyda chymorth eu nain a'u taid ar ochr eu tad. Dri diwrnod yn ddiweddarach, ar 13 Awst, fe gysylltodd Mrs X â'r heddlu i roi gwybod bod ei theulu-yng-nghyfraith yn gas iddi ac nad oedd hi eisiau byw gyda nhw mwyach. Ar 31 Awst, rhoddwyd gwybod i'r gwasanaeth addysg yn Lloegr bod Plentyn A a'i frawd/chwaer wedi dychwelyd i Gymru.

<u>Cymru</u>
Ar 1 Medi 2022, rhoddodd Mrs X wybod i'r gwasanaethau addysg yng Nghymru a Lloegr ei bod wedi dychwelyd i Gymru a'i bod yn bwriadu addysgu ei phlant yn y cartref. Rhoddodd y gwasanaeth addysg yn Lloegr wybod i'r gwasanaeth addysg yng Nghymru fod y plant wedi dychwelyd i'w hardal. Ychwanegwyd Plentyn A a'i frawd/chwaer at gronfa ddata addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Rhoddodd Mrs X wybod i'r gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru am amgylchiadau'r teulu a'u trefniadau byw y tu allan i'r DU. Drwy gydol mis Medi a mis Hydref, roedd Mrs X wedi cadw mewn cysylltiad trwy negeseuon e-bost â'r gwasanaeth addysg yng Nghymru. Ar 29 Medi, fe gafodd awdurdod lleol Lloegr gais am wybodaeth gan gyfleuster iechyd meddwl Mr X yn gofyn am ganlyniad adolygiad achos difrifol. Rhoddwyd gwybod iddynt nad oedd unrhyw beth wedi'i wneud mewn perthynas â'r plant. Rhoddodd y cyfleuster iechyd meddwl wybod i'r awdurdod lleol fod Mrs X a'r plant yn byw yng Nghymru.

Ym mis Hydref, cofrestrodd Plentyn A a'i frawd/chwaer gyda meddyg teulu yng Nghymru. Ym mis Tachwedd, cafodd Plentyn A ei ryddhau o'r gwasanaeth nyrsio ysgol yn Lloegr, ond ni chafwyd trosglwyddiad gan nad oedd wedi'i gofrestru mewn ysgol yng Nghymru. Ar 25 Tachwedd 2022, fe gafodd yr awdurdod lleol yng Nghymru atgyfeiriad gan y cyfleuster iechyd meddwl lle'r oedd Mr X wedi'i gadw i ymateb i gais Mr X i gael cyswllt â'i blant. Cododd Mr X bryderon hefyd fod Mrs X yn gwerthu rhyw.

Cychwynnodd yr awdurdod lleol asesiad cynhwysfawr. Siaradwyd â Mrs X ynglŷn â'i gwaith; er na chyfaddefodd yn benodol ei bod yn gwerthu rhyw, honnodd Mrs X ei bod wedi sicrhau bod y plant yn cael gofal priodol ac nad oeddent mewn cysylltiad â'i chleientiaid. Bu’r awdurdod lleol yn cysylltu â’r tîm addysg ddewisol yn y cartref i fonitro llesiant y plant, gan ofyn iddynt ymweld â’r cartref cyn rhoi’r gorau i’w hymwneud. Yn dilyn galwadau Mrs X i'r heddlu ym mis Ebrill a mis Mai 2022, cafwyd ymateb amserol a chydlynol rhwng asiantaethau yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau bod Mrs X a'r plant yn cael ymweliad. Aeth yr heddlu yng Nghymru i gyfeiriad y cartref; nid oedd ganddynt unrhyw bryderon am Mrs X a nodwyd bod Plentyn A a'i frawd/chwaer yn hapus, yn lân ac yn daclus.

Ym mis Ebrill 2023, ceisiodd y cyfleuster iechyd meddwl lle cafodd Mr X ei gadw eglurder ynghylch canlyniad eu hatgyfeiriad cychwynnol ynghylch pryderon diogelu. Ym mis Mai 2023, fe ddechreuodd cyfarfodydd rhithwir dan oruchwyliaeth rhwng Mr X, Mrs X a'r plant ac roedd y rhain yn parhau i gael eu cynnal bob tair wythnos. Ddiwedd mis Medi 2023, fe gysylltodd y tîm addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru â Mrs X i drefnu eu hymweliad adolygu blynyddol. Dywedodd Mrs X fod y teulu wedi dychwelyd i fyw yn Lloegr ac, o ganlyniad, na fyddent yn rhoi diweddariad. Ceisiodd y gwasanaeth addysg yng Nghymru gadarnhad gan Mrs X, gan gynnal ymweliadau â chartref y teulu yng Nghymru. Yno gwelsant dystiolaeth o deganau plant ac felly gadawsant gerdyn ymweld.

<u>Lloegr</u>
Mae cofnodion o'r cyfleuster iechyd meddwl yn Lloegr lle cafodd Mr X ei gadw yn nodi bod Mrs X a'r plant wedi symud yn ôl i Loegr ar 2 Hydref 2023. Digwyddodd ymweliad dan oruchwyliaeth wyneb yn wyneb cyntaf y teulu gyda Mr X ar 6 Hydref 2023. Aeth yr ymweliad yn dda, ac roedd Plentyn A a'i frawd/chwaer yn falch o weld eu tad. Cynhaliwyd dau ymweliad dan oruchwyliaeth pellach ym mis Tachwedd 2023, ac ni nodwyd unrhyw bryderon.

<u>Cymru</u>
Ar 17 Tachwedd 2023, anfonodd Mrs X neges e-bost at y tîm addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru i roi gwybod iddynt am ei bwriad i ddychwelyd i Gymru erbyn diwedd y mis. Ar 27 Tachwedd, anfonodd Mrs X adroddiad addysg manwl at dîm y gwasanaeth addysg yng Nghymru. Ar 13 Rhagfyr, cynhaliwyd cyswllt wyneb yn wyneb dan oruchwyliaeth rhwng Mr X, Mrs X a'u plant yn y cyfleuster iechyd meddwl yn Lloegr. Ar 8 Ionawr 2024, fe gafodd y cyfleuster iechyd meddwl neges e-bost gan Mrs X er mwyn trefnu ymweliad wyneb yn wyneb ar gyfer 11 Ionawr 2024. Ni chynhaliwyd yr ymweliad hwnnw oherwydd, yn drasig, bu farw Plentyn A ar 10 Ionawr 2024.

## Y broses adolygu ymarfer plant

*I’w cynnwys yma yn gryno:*

- *Y broses a ddilynwyd gan y bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a’r gwasanaethau a fynychodd*
- *Rhoddwyd gwybod i aelodau’r teulu, ceisiwyd eu barn a chawsant eu cynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu, a darparwyd adborth*

**Y broses a ddilynwyd gan y bwrdd diogelu a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel adolygu**

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn unol â deddfwriaeth statudol yn adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau cysylltiedig yn ‘Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant’ (Llywodraeth Cymru, 2016).

Yn unol â'r canllawiau, penodwyd cadeirydd i'r panel ac adolygydd sy'n annibynnol ar reolwyr yr achos. Roeddent yn meddu ar y profiad, y sgiliau, yr wybodaeth a'r galluoedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer yr achos a'i amgylchiadau penodol. Mae'r adolygydd yn gwbl annibynnol ar Gymru. Cyfarfu'r panel ar 11 achlysur ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau canlynol, a phob un ohonynt wedi ymwneud â'r unigolion sydd wrth wraidd yr adolygiad hwn:

- Gwasanaethau plant yr awdurdodau lleol (Cymru a Lloegr)
- Bwrdd iechyd (Cymru)
- Heddlu (Cymru)
- Addysg (Cymru a Lloegr)

Yn ogystal â'r uchod, cynorthwyodd y bwrdd iechyd a'r heddlu yn Lloegr gyda'r adolygiad, gan gysylltu â'u cymheiriaid yng Nghymru i gefnogi ymdrechion i rannu gwybodaeth.

**Cyfranogiad y teulu yn yr adolygiad**
Mae cymryd rhan mewn adolygiad ymarfer plant yn dilyn marwolaeth plentyn neu ŵyr neu wyres yn broses gymhleth a sensitif yn emosiynol i unrhyw riant neu nain neu daid. Mae'r adolygiad hwn wedi elwa ar gyfranogiad caredig a myfyrdodau meddylgar rhieni Plentyn A (Mr a Mrs X), a'r nain a'r taid ar ochr y tad (Mr a Mrs Y). Cyflwynir eu barn mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn.

Cyn y digwyddiad dysgu, fe ymwelodd yr adolygydd a chadeirydd y panel â Mrs X wyneb yn wyneb a siarad â Mr X drwy alwad fideo i ddeall eu canfyddiadau a'u profiadau. Cytunodd Mr a Mrs Y hefyd i gymryd rhan er mwyn sicrhau bod eu barn wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad. Ymunodd Mr Y â'r drafodaeth tua diwedd yr ymweliad. Er gwaethaf profi dirywiad gwybyddol, roedd Mr Y yn gallu gofyn cwestiynau a rhannu myfyrdodau ar ei amser gyda'i wyrion.

**Y digwyddiad dysgu**
Er bod Plentyn A yn byw yng Nghymru adeg ei farwolaeth, roedd ef a'i deulu wedi byw yn Lloegr am y rhan fwyaf o'i oes. Yn ystod ei fywyd, roedd Plentyn A yn byw yn y ddwy wlad ac, felly, gwahoddwyd asiantaethau o Loegr i gymryd rhan yn y digwyddiad dysgu. Penderfynwyd y dylid cynnal y digwyddiad dysgu yng Nghymru, yn lleol i'r ymarferwyr a'r gymuned yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan farwolaeth drasig Plentyn A. Ystyriwyd cais i rai asiantaethau yn Lloegr fod yn rhan o'r digwyddiad mewn dyluniad hybrid, ond nid ystyriwyd bod hynny'n briodol o ystyried natur sensitif yr adolygiad.

Roedd pob asiantaeth o Gymru yn bresennol yn y digwyddiad dysgu. Roedd swyddogion heddlu ac asiantaethau addysg o Loegr yn bresennol. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad dysgu yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn ymgysylltu â'r digwyddiad, ac yn fyfyriol. Roedd y rheini a oedd yn bresennol yn gwerthfawrogi'r cyfle i wrando, rhannu a dysgu o brofiadau Plentyn A, aelodau'r teulu, a'r asiantaethau yr oeddent yn eu cynrychioli. Mae manylion yr asiantaethau hynny wedi'u nodi yn y tabl isod.

| Ymarferwyr a oedd yn bresennol | Rheolwyr |
|---|---|
| **Awdurdod lleol (Cymru)**<br>**Addysg (Cymru, Lloegr)**<br>**Iechyd (Cymru)**<br>**Heddlu (Cymru, Lloegr)** | **Awdurdod lleol (Cymru)**<br>**Addysg (Cymru, Lloegr)**<br>**Iechyd (Cymru)**<br>**Heddlu (Cymru, Lloegr)** |

Roedd fformat y diwrnod yn cynnwys cyflwyniad o broses y digwyddiad dysgu. Roedd yn cyfleu'r ymatebion i'r gwahoddiad i ymateb gan aelodau'r teulu. Rhannwyd ymarferwyr yn ddau grŵp i nodi themâu pellach o'r amserlen, trafod meysydd dysgu, a nodi meysydd o arferion da. Yn ddiweddarach yn y dydd, archwiliodd trydydd grŵp y pwyntiau dysgu trawsffiniol penodol. Yna rhannodd pawb a oedd yn bresennol eu dysgu grŵp a'r themâu a nodwyd ar y cyd, wedi'u hwyluso gan gwestiynau yn seiliedig ar y dull arwyddion diogelwch.

1. Beth aeth yn dda, a pha arferion da ydych chi wedi'u nodi?
2. Beth allai eich sefydliad fod wedi'i wneud yn wahanol?
3. Beth yw eich pwyntiau dysgu pwysicaf?
4. Pa gamau ydych chi'n teimlo y mae angen i asiantaethau eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn llywio ymarfer yn y dyfodol?

Mae'r adolygydd yn ddiolchgar i bawb a oedd yn bresennol yn y digwyddiad dysgu, a oedd yn canolbwyntio ar faterion diogelu hanfodol, am eu cyfraniad amhrisiadwy at y broses, sydd wedi llywio'r gwersi a ddysgwyd a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Yn dilyn y digwyddiad dysgu, fe gynhaliodd cadeirydd y panel a'r adolygydd gyfweliadau ar-lein ar wahân â rheolwyr o'r awdurdod lleol yn Lloegr a'r bwrdd iechyd.

## Dysgu ymarfer a sefydliadol

*Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.*

**Mae diogelu cymhleth yn gofyn am ddadansoddiad cyd-destunol i helpu i bennu'r tebygolrwydd o niwed arwyddocaol**

Mae llofruddiaeth gan fam yn ddigwyddiad cymhleth a thrasig sy'n brin yn ystadegol, gyda chyfraddau amcangyfrifedig yn amrywio o rhwng 0.6 a 2.1 fesul 100,000 o blant.[15] Pan fydd llofruddiaeth plentyn yn digwydd yng nghyd-destun seicosis acíwt, mae canfyddiad y rhiant o realiti yn cael ei yrru gan gredoau rhithdybiol.[16]Mae mwy na hanner yr achosion cyntaf o seicosis yn parhau heb eu canfod gan y gwasanaethau iechyd.[17] Mae prinder y ffenomenau a'u sensitifrwydd cynhenid yn golygu nad oes llawer o ymchwil i gynorthwyo ein dealltwriaeth.[18]Fodd bynnag, mae adolygiad diweddar o'r llenyddiaeth academaidd yn awgrymu themâu sy'n dod i'r amlwg, megis iechyd meddwl gwael mamau a systemau cymorth annigonol.[19]

Mae llofruddiaeth plant yn effeithio'n anghymesur ar fabanod newydd-anedig a babanod, ond mae plant o oedran ysgol gynradd, fel Plentyn A, hefyd yn cael eu heffeithio. O ystyried natur amlffactor a chudd y risg hon, mae angen hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer athrawon, gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr iechyd meddwl sy'n gweithio gyda mamau plant o oedran ysgol

[15] Herman-Giddens ME, Smith JB, Mittal M, Carlson M, Butts JD (2003) Newborns killed or left to die by a parent: a Population-based study. JAMA 289(11):1425–1429

[16] Resnick, P. (2016). Filicide in the United States. Indian Journal of Psychiatry, 58(6), 203–209. https://doi.org/10.4103/0019-5545.196845

[17] Fusar-Poli, P., Oliver, D., Spada, G., Estrade, A., a McGuire, P. (2021). The case for improved transdiagnostic detection of first-episode psychosis: Electronic health record cohort study. Schizophrenia Research, 228, 547–554. https://doi.org/10.1016/j.schres.2020.11.031

[18] Milia, G., a Noonan, M. (2022). Experiences and perspectives of women who have committed neonaticide, infanticide and filicide: A systematic review and qualitative evidence synthesis. *Journal of Psychiatric and Mental Health Nursing*, *29*(6), 813–828. https://doi.org/10.1111/jpm.12828

[19] Frederique, A., Stolberg, R., Estrellado, J., a Kellum, C. (2023). Maternal Filicide: A Review of Psychological and External Demographic Risk Factors. *Journal of Aggression, Maltreatment & Trauma*, *32*(1–2), 34–52. https://doi.org/10.1080/10926771.2022.2114394

gynradd.[20]Dylai'r hyfforddiant hwn gryfhau gallu ymarferwyr i fynd y tu hwnt i asesu cyflwyniad a gwella'r dadansoddiad o ffactorau cronnus, hanesyddol a chyd-destunol, a allai ddangos pryderon ynghylch tebygolrwydd niwed sylweddol yn y dyfodol.

<u>Cefndir cyd-destunol</u>
Mae'r wybodaeth cyn yr amserlen a gyflwynwyd i'r adolygiad yn rhoi cipolwg ar yr heriau cyfreithiol, ariannol a seicolegol cymhleth a brofwyd gan Mr a Mrs X. Roedd y cydberthnasau rhwng Mr a Mrs X, a rhyngddynt hwy a Mrs a Mrs Y, wedi'u cymhlethu gan y ddynameg deuluol amddiffynnol, ddibynnol ac ansicr. Achosodd y pryderon ynghylch cam-drin domestig Mr X tuag at ei wraig yn 2017, tra oedd y teulu'n byw gyda Mr a Mrs Y, i Blentyn A a'i frawd/chwaer fod yn destun cynllun amddiffyn plant. Ar yr adeg hon o’i bywyd, roedd Mrs X a’i dau blentyn bach yn byw mewn llety i’r digartref a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn Lloegr. Esboniodd Mr X fod y straen o drefnu her gyfreithiol lwyddiannus i helpu ei wraig i aros yn y wlad wedi cyfrannu at ddirywiad ei iechyd meddwl ar y pryd.

Nid oedd gan Mrs X ganiatâd amhenodol i aros, a chafodd ei hatal rhag mynd â'i phlant ifanc yn ôl i'w gwlad wreiddiol ar ôl i Mr X wneud cais llwyddiannus am orchymyn camau gwaharddedig. Parhaodd yr awdurdod lleol i ymwneud â'r teulu ar ôl i Mr a Mrs X ailymuno a byw mewn cartref a gafwyd gyda chymorth ariannol gan Mr a Mrs Y. Yn gadarnhaol, mae dogfennaeth ar y pryd yn manylu ar arsylwadau o'r plant a'u cydberthnasau â'u rhieni. Yn dilyn yr awdurdod lleol yn tynnu’n ôl, ni chafwyd unrhyw bryderon pellach tan fis Hydref 2021.

Mae'r amserlen yn adlewyrchu cyfleoedd a gollwyd i roi cyd-destun i brofiad Mrs X a'r effaith ar ei gallu i fod yn rhiant, gyda'r pryder bod Mr a Mrs Y mewn perygl o gam-drin ariannol gan Mr X. Cododd y pryderon diogelu hyn gyntaf ym mis Hydref 2021, pan adroddwyd bod y nain a’r taid ar ochr y tad mewn perygl o gael eu cam-drin yn ariannol gan Mr X, a oedd eisiau cymorth ei rieni i brynu cartref yng Nghymru. Wythnos yn ddiweddarach, cysylltodd Mrs X â'r heddlu yn dilyn dadl â'i gŵr ar ôl methu â gwerthu tŷ. Roedd yr heddlu yn Lloegr yn ymwybodol o'r pryderon blaenorol ynghylch amddiffyn plant a cham-drin domestig; fe wnaethant ymweld â'r cartref a nodi bod y plant yn cael eu haddysgu yn y cartref, bod y tŷ yn flêr, a bod llawer o deganau yno. Gofynnodd yr heddlu am asesiad o unigolyn agored i niwed.

<u>Sefyllfa fwy cymhleth yn sgil ymosodiad Mr X ar ei dad</u>

Ymosododd Mr X ar ei dad ym mis Ebrill 2022, yn fuan ar ôl i'r teulu symud i ardal newydd yng Nghymru, lle nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiadau na ffynonellau o gymorth. Cynigiodd Mr a Mrs Y gymorth i'r teulu, gan wahodd Mrs X a'r plant i fyw gyda nhw yn eu cartref. Fodd bynnag, mae'r amserlen yn dangos tensiynau a chymhlethdodau mewn perthynas â hyn, yng nghyd-destun yr anghydfodau ariannol a oedd wedi codi'n flaenorol. Wedi hynny, cysylltodd Mrs X â'r heddlu i ofyn am gymorth a honnodd ei bod wedi dioddef cam-drin emosiynol ac ariannol gan Mr a Mrs Y. Mewn ymateb, ymwelodd yr heddlu â Mrs X ac roeddent yn pryderu am ei llesiant emosiynol, amodau gwael y cartref, diffyg addysg, a'r ffaith bod y teulu wedi'i ynysu'n gymdeithasol. Gofynnodd yr heddlu am asesiad o unigolyn agored i niwed, ond ar yr achlysur hwnnw ni wnaethant ystyried y pryderon ynghylch y cam-drin ariannol yn ymwneud â Mr a Mrs Y. O ran Mr a Mrs Y, fe gydnabu'r heddlu yn Lloegr eu bod wedi colli cyfleoedd i ymateb i'r pryderon diogelu,

[20] Giacco, S., Tarter, I., Lucchini, G., a Cicolini, A. (2023). Filicide by mentally ill maternal perpetrators: a longitudinal, retrospective study over 30 years in a single Northern Italy psychiatric-forensic facility. Archives of Women’s Mental Health, 26(2), 153–165. https://doi.org/10.1007/s00737-023-01303-6

gan gwblhau adolygiad diogelu oedolion dewisol a nododd sawl pwynt dysgu yn ogystal ag arferion da.

<u>Effaith ar Blentyn A</u>

Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Gorffennaf 2022, fe symudodd Plentyn A, pum oed, a'i frawd/chwaer adref dair gwaith, o fyw yn Lloegr i gartref eu nain a thaid ar ochr eu tad yng Nghymru. Roedd iechyd meddwl ei dad wedi bod yn dirywio cyn iddo adael eu cartref newydd yng Nghymru i gasglu eu heiddo, ac ni ddychwelodd byth. Bu sawl ymweliad gan yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, a chanfuwyd bod Plentyn A wedi'i ynysu'n gymdeithasol ac yn meddu ar sgiliau cymdeithasol gwael. Roedd ei fam yn poeni am oblygiadau ymddygiad ei gŵr ac yn bryderus am ddiogelwch ariannol y teulu. Roedd oedolion a ymwelodd â chartref y teulu yn pryderu i ddechrau bod Mrs X yn ansefydlog yn emosiynol. Roedd taid Plentyn A yn dioddef o anafiadau, ac roedd ei fam dan straen ac yn dadlau gyda'i nain am arian. Ar ôl cael ei addysgu yn y cartref am bron i flwyddyn, roedd yn ofynnol iddo fynd i ysgol newydd. Daeth ymholiadau adran 47 yr awdurdod lleol yn Lloegr i'r casgliad nad oedd unrhyw bryderon diogelu. Cafodd eu pryderon cychwynnol ynghylch sgiliau cymdeithasol y plant, teimlo'n ynysig, ffiniau a diffyg addysg ffurfiol eu lleddfu wrth i'r plant ddechrau mynd i'r ysgol ac oherwydd y cymorth yr oedd Mrs X yn ei gael gan Mrs Y.

Yn ystod y cyfnod argyfyngus hwn, ymatebodd Mrs X i nifer o ddigwyddiadau ansefydlogi. Nid yw'n syndod y cafodd ei hystyried yn ansefydlog yn emosiynol i ddechrau. Rhoddodd Mrs X wybod i'r heddlu yn briodol am sylwadau ei gŵr ynghylch eu plant. Gyda'i gŵr wedi'i gadw yn y ddalfa ar ôl yr ymosodiad ar ei dad, byddai ei dyfodol wedi ymddangos yn ansicr. Roedd hi'n poeni am arian ac roedd hynny'n tynnu sylw at ei disgwyliad parhaus o gael cymorth ariannol gan Mr a Mrs Y. Yn ystod y misoedd hynny, efallai nad oedd Mrs X yn gwybod ble roedd hi'n bwriadu byw gyda'r plant. Roedd hi wedi byw yn y DU am lai na phum mlynedd a Lloegr oedd rhanbarth mwyaf cyfarwydd y wlad. Yn ogystal â'r tŷ yng Nghymru, roedd Mr a Mrs X yn dal i rentu tŷ yn Lloegr. Yn ogystal, efallai fod gan Mrs X bryderon ynghylch ei statws cyfreithiol yn y wlad yn y dyfodol a sut y byddai'n ymdopi â bod yn fam sengl heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus.

Ym mis Tachwedd 2022, cysylltodd Mr X, trwy staff y cyfleuster iechyd meddwl, â'r awdurdod lleol yng Nghymru i ofyn am gyswllt â'i blant ac i godi pryderon bod Mrs X yn gwerthu rhyw. Arweiniodd hyn at asesiad gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol yng Nghymru. Ymwelodd yr awdurdod lleol â chartref y teulu, a siaradwyd â'r plant ar eu pen eu hunain. Nid oedd unrhyw bryderon ynghylch amodau'r cartref a gwelwyd ardal addysgol a stiwdio ar gyfer celf a chrefft. Pan ofynnwyd iddi, ni chyfaddefodd Mrs X ei bod yn gwerthu rhyw, ond rhoddodd sicrwydd bod ei phlant yn cael eu gofalu amdanynt ac yn cael eu hamddiffyn.

Mae ymarferwyr yng Nghymru yn cael eu cefnogi gan ganllawiau Gofyn a Gweithredu (2017), sy'n annog gwyliadwriaeth wrth gydnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).[21]Rhaid i ymarferwyr sicrhau bod rhieni'n darparu amgylchedd meithringar i'w plant, bod ganddyn nhw system gymorth, a'u bod yn cael eu diogelu. Rhoddodd Mrs X y sicrwydd hwnnw i foddhad yr awdurdod lleol yng Nghymru.

Cafodd Mrs X wybod am y gwasanaethau a ddarperir gan y tîm cymorth i deuluoedd, ond nid oedd hi eisiau cymorth ar y pryd. Cytunwyd y gallai'r plant ddechrau cael cysylltiad â'u tad drwy alwad fideo, dan oruchwyliaeth staff y cyfleuster iechyd meddwl. Ni chwblhaodd yr awdurdod lleol yng Nghymru asesiad llawn. Cadarnhaodd yr awdurdod lleol fod y plant wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref ar 3 Ionawr 2023. Ar 5 Ionawr, gwnaeth y cyfleuster

[21] canllawiau-i-arweinwyr-cydgysylltwyr-a-rheolwyr-mewn-awdurdodau-perthnasol.pdf

iechyd meddwl atgyfeiriad arall ar ran Mr X, gan uwchgyfeirio pryderon ynghylch Mrs X yn gwerthu rhyw, ynysu'r plant, ac unrhyw effaith andwyol ar y plant. Ymatebodd yr awdurdod lleol yng Nghymru fod ymweliadau wedi'u cynnal ac nad oedd unrhyw bryderon amddiffyn plant yn amlwg.

Yn ddefnyddiol, dywedodd Mrs X wrth yr adolygiad hwn ei bod hi'n gweithio'n llawrydd yn gwerthu rhyw a bod ganddi gleientiaid yng Nghymru a Lloegr. Byddai hi'n teithio i Loegr a byddai ei chleientiaid o Loegr yn teithio i Gymru. Mae Mrs X yn honni bod ei gwaith wedi digwydd y tu allan i gartref y teulu, ac os oedd yn digwydd o fewn cartref y teulu ar adegau, roedd hi wedi trefnu gofal plant, felly nid oedd y plant yn ymwybodol o'i gwaith. Roedd natur gweithio'n llawrydd yn rhoi'r hyblygrwydd oedd ei angen ar Mrs X i addysgu ei phlant gartref. Fe wnaeth hefyd ddarparu digon o incwm iddi i allu darparu ar gyfer ei phlant yn economaidd, fel rhiant sengl heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus.

Parhaodd y gofynion ar Mrs X drwy gydol 2023. Prynwyd cartref y teulu yng Nghymru yn enwau Mr a Mrs X, gan ddefnyddio arian a gafwyd gan Mr a Mrs Y. Daeth yr eiddo hwnnw'n rhan o achos y Llys Gwarchod mewn perthynas â Mr Y yn 2023, gan arwain at bryderon gan Mrs X na fyddai hi a'r plant yn gallu parhau i fyw yn y tŷ. Dychwelodd Mrs X a'r plant i fyw gyda Mr a Mrs Y, gan roi gwybod i'r gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru ei bod yn symud i Loegr. Ar 6 Hydref 2023, dechreuodd Plentyn A a'i frawd/chwaer yr ymweliadau dan oruchwyliaeth wyneb yn wyneb cyntaf gyda Mr X yn y cyfleuster iechyd meddwl yn Lloegr. Cynhaliwyd dau ymweliad pellach ar 3 Tachwedd a 14 Tachwedd. Ar 15 Tachwedd, rhoddwyd gwybod i Mr X fod larwm eu tŷ yng Nghymru wedi'i actifadu. Mae Mrs X a'r plant yn dychwelyd i Gymru ar 17 Tachwedd 2023. Ar 23 Tachwedd 2023, bu Mrs Y a Mrs X yn cyfnewid negeseuon e-bost cynnes ynghylch y newyddion diweddaraf am eu bywydau ddydd i ddydd. Yn ystod mis Medi a mis Hydref, roedd y gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru yn ceisio dod o hyd i'r plant, ond yn aflwyddiannus. Roeddent yn dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan Mrs X, ac nid oedd ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth o amgylchiadau'r teulu. Anfonodd Mrs X neges e-bost at y gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru ar ôl iddi ddychwelyd, ond gwrthododd ganiatáu iddynt gynnal ymweliad â'i chartref. Fodd bynnag, fe gydymffurfiodd â darparu tystiolaeth o addysg ei phlant. Yn ystod y cyfnod hwn o straen cynyddol ar Mrs X, nid oedd unrhyw wasanaethau cyhoeddus yn ymgysylltu'n weithredol â'r plant i nodi'r digwyddiadau yr oeddent yn eu profi na'r effaith arnynt. Roedd cael eu haddysgu yn y cartref yn golygu nad oedd gan y plant rwydwaith cymorth lle roedd ganddynt gydberthnasau ymddiriedus â gweithwyr proffesiynol y gallent siarad â nhw am lesiant eu mam. Ni chawsant eu gweld na'u clywed.

Ar 13 Rhagfyr 2023, aeth Mrs X â'r plant i ymweld â'u tad. Nid oedd Mrs X yn gyrru, ac roedd hyn yn dasg sylweddol gyda dau o blant ac yn golygu bod yn rhaid iddynt aros dros nos gyda ffrind yn Lloegr. Goruchwyliodd y cyfleuster iechyd meddwl yr ymweliad y diwrnod hwnnw, ac nid oedd cyflwyniad Mrs X yn destun pryder. Roedd yr ymweliad nesaf a gynlluniwyd i weld Mr X i fod i gael ei gynnal ar 11 Ionawr 2024, y diwrnod ar ôl marwolaeth Plentyn A.

**Yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n sail i addysg ddewisol yn y cartref**

Gall mynd i'r ysgol gyfrannu at lesiant a datblygiad cyffredinol plentyn gan fod ysgolion yn darparu cyfleoedd i blant feithrin cydberthnasau gwydn a phwysig â'u cyfoedion a'u hathrawon. Mae presenoldeb rheolaidd hefyd yn golygu y gall athrawon roi gwybod am unrhyw bryderon yn rhwydd a gweithredu i atal niwed sylweddol.[22] Fodd bynnag, cafodd y ffactorau amddiffynnol a nodwyd gan

[22] Sharley, V. (2023). Responding to Child Neglect in Schools: factors which scaffold safeguarding practice for staff in mainstream Education in Wales. *Research Papers in Education*, *38*(6), 1008–1028. https://doi.org/10.1080/02671522.2022.2089211

yr awdurdod lleol yn Lloegr a oedd yn cysylltiedig â'r plant yn mynd i'r ysgol a'r cymorth a roddwyd yn sgil byw gyda Mrs Y, cyn iddo roi'r gorau i'w ymwneud, eu dileu o fewn wythnosau. Roedd gan Mrs X awydd ers tro byd i addysgu ei phlant yn y cartref ac ailddechreuodd yr arfer hwn ar ôl iddi ddychwelyd i fyw yng Nghymru ym mis Medi 2022. Rhoddwyd gwybod i'r tîm derbyniadau addysg yng Nghymru fod y plant wedi symud i'w hardal ym mis Medi 2022. Fodd bynnag, ni rannwyd unrhyw wybodaeth ynghylch ymwneud blaenorol yr awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r wers hon yn tynnu sylw at y rhwystrau y mae plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn eu hwynebu wrth gael mynediad at bolisïau a gynlluniwyd i gefnogi llesiant plant o oedran ysgol. Nid yw'r wers yn bwriadu gosod ei hun yng nghanol y tensiynau sy'n gynhenid ym maes addysg yn y cartref,[23] ond yn bwriadu ystyried profiad, hawliau a gallu Plentyn A i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Mae'r amserlen yn nodi, yng Nghymru a Lloegr, pan fydd yr awdurdod lleol yn peidio â bod yn ymwneud â theulu, bod dibyniaeth ar wasanaethau addysg i barhau i weld a chlywed y plant.

Ni ddylai plant y mae eu rhieni'n dewis eu haddysgu yn y cartref brofi mwy o rwystrau i'w hawliau gael eu gwasanaethu gan wasanaethau cyhoeddus na'u cyfoedion sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol neu mewn lleoliad addysgol arall. Mae canllawiau statudol addysg ddewisol yn y cartref[33] Llywodraeth Cymru wedi'u seilio ar egwyddorion CCUHP i hyrwyddo a diogelu hawliau plentyn. Mae'r egwyddorion hyn fel a ganlyn:

- peidio â bod yn destun gwahaniaethu (Erthygl 2)
- budd gorau'r plentyn (Erthygl 3)
- yr hawl i fyw, goroesi a datblygu (Erthygl 6)
- parch at farn plant (Erthygl 12)

Roedd gan Blentyn A yr hawl i gael ei weld a'i glywed ac i fynegi ei farn am benderfyniadau a oedd yn effeithio arno. Gyda chymorth priodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth, roedd gan Blentyn A yr hawl i gymryd rhan mewn prosesau asesu. Roedd gan Blentyn A yr hawl i ddisgwyl i benderfyniadau a wneir amdano fod er ei fudd pennaf. Roedd Plentyn A yn ddibynnol ar ei rieni ac, ar adeg ei farwolaeth, ar ei fam i weithredu er ei fudd pennaf. Roedd Plentyn A yr un mor ddibynnol ar wasanaethau cyhoeddus i'w ddiogelu rhag niwed.

<u>Cyd-destun deddfwriaethol</u>

Yng Nghymru a Lloegr, mae adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 *yn rhoi cyfrifoldeb i rieni sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas*

*(a) i'w hoedran, eu gallu a'u dawn, a*

*(b) i unrhyw anghenion addysgol arbennig (yn achos plentyn sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr) neu anghenion dysgu ychwanegol (yn achos plentyn sydd yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru) a allai fod ganddynt, naill ai drwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall.*[24]

Mae adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, cyn belled ag y bo modd gwneud hynny, nodi plant o oedran ysgol yn eu rhanbarth nad ydynt yn cael addysg addas. Yn hanesyddol, nid yw Cymru na Lloegr wedi monitro nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, ac amcangyfrifodd ymchwil yn Lloegr yn 2021 fod 81,196 o blant yn cael eu

[23] Holmes, S. E., a Pattison, H. (2024). Who controls the agenda? theological perspectives on state-controlled home education in the UK. *Journal of Beliefs and Values*, 1–18. https://doi.org/10.1080/13617672.2024.2324229
[24] Deddf Addysg 1996

haddysgu yn y cartref.[25]Yn dilyn cyflwyno monitro yn Lloegr yn 2022, a ddaeth yn orfodol i awdurdodau lleol yn 2024, mae data'n awgrymu bod 111,700 o blant yn Lloegr yn cael eu haddysgu yn y cartref.[26] Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn 2021 yn awgrymu bod gan Loegr 250 o swyddogion addysg ddewisol yn y cartref yn goruchwylio darpariaeth addysg plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ar draws 152 o awdurdodau lleol.[27]Mewn un awdurdod lleol, dim ond un swyddog addysg ddewisol yn y cartref oedd yn gyfrifol am 500 o blant. Mae gan Gymru systemau rhanbarthol ar waith i nodi plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, ond nid yw wedi cyflwyno cofrestr orfodol o blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Felly, nid yw union nifer y plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yng Nghymru yn hysbys.

Yng Nghymru, mae addysg yn orfodol, ond nid yw mynd i'r ysgol yn orfodol. Os yw plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref, mae rhwymedigaeth ar rieni i sicrhau bod eu plentyn yn cael addysg amser llawn 'effeithlon' ac 'addas'; mae'r rhwymedigaeth hon i'w chael yn adran 7 o Ddeddf Addysg 1996. Rhaid i rieni sy'n penderfynu addysgu eu plant yn y cartref fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb llawn, a gall hyn gael goblygiadau ariannol.[28] Yn erbyn y penderfyniad hwn mae'r disgwyliad y gall awdurdodau lleol asesu addasrwydd yr addysg y mae rhieni'n ei darparu.

Unwaith y bydd plentyn wedi'i nodi fel un sy'n cael ei addysgu yn y cartref, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhieni'n cyflawni eu cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae'r fframwaith rheoleiddio yn rhoi pwerau cyfyngedig i awdurdodau lleol i gyflawni hyn pan nad yw rhieni'n ymgysylltu'n llawn â'r gwasanaeth, gan ei gwneud yn ofynnol i swyddogion addysg ddewisol yn y cartref ddatblygu eu codau ymarfer, ac nid yw hyn wedi'i groesawu i ryw raddau.[27]Archwiliodd adolygiad barnwrol 2021 yn Goodred v. Portsmouth City Council[29] gymhlethdod cyfrifoldebau rhieni ac awdurdodau lleol a chanfu fod gan y cyngor hawl i geisio gwybodaeth ychwanegol. Disgwylir i rieni, yn eu tro, ymateb yn ystyrlon i'r ymholiadau hynny.

Canllawiau cyfredol a deddfwriaeth sy'n cael ei datblygu

Cyhoeddwyd canllawiau adrannol anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr yn 2019[30] ac maent yn cael eu hadolygu yn dilyn cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2024. Ar hyn o bryd, mae Senedd y DU yn ystyried Bil Lles Plant ac Ysgolion 2024,[31] sy'n cynnig sawl diwygiad i amddiffyn plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref, gan gynnwys cyflwyno cofrestru gorfodol a chryfhau rôl awdurdodau lleol os yw plant yn destun cynllun amddiffyn plant. Yn nodedig, cyflwynwyd y Bil yng nghyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth 2025, gyda'r nod o ymestyn y darpariaethau plant heb fod yn yr ysgol (adrannau 30–35 ac Atodlen 2 yn y fersiwn ddiweddaraf) i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad yn nodi sut yr oedd y Bil hwnnw'n gymwys i Gymru.[32]

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol,[33] wedi'u hategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gynorthwyo awdurdodau lleol

[25] Purcell, C., Baginsky, M., Manthorpe, J., a Driscoll, J. (2023). Home Education in England: A Loose Thread in the Child Safeguarding Net? *Social Policy and Society: A Journal of the Social Policy Association*, *42*(1), 1–12.
[26] Elective Home Education, Autumn term 2024/25 – Explore Education statistics – GOV.UK
[27] Erthygl lawn: Elective Home Education: a system without codes of practice
[28] Canllawiau addysg ddewisol yn y cartref [HTML] | LLYW.CYMRU
[29]Goodred v Portsmouth City Council | [2021] EWHC 3057 (Gweinyddol) | Uchel Lys Cymru a Lloegr (Llys Gweinyddol) | Dyfarniad | Cyfraith | CaseMine
[30] Elective home education – GOV.UK
[31] Children's Wellbeing and Schools Bill – Parliamentary Bills – UK Parliament
[32] Datganiad Ysgrifenedig: Bil Lles Plant ac Ysgolion (10 Mawrth 2025) | LLYW.CYMRU
[33] Canllawiau addysg ddewisol yn y cartref [HTML] | LLYW.CYMRU

i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r canllawiau'n amlinellu sut y dylai awdurdodau lleol geisio deall sut mae plant nad ydynt wedi cofrestru yn yr ysgol yn cael eu haddysg. Mae'r canllawiau'n cydnabod bod addysg yn y cartref yn ddewis cadarnhaol i lawer o deuluoedd. Ar yr un pryd, maent yn tynnu sylw at werth ysgolion a lleoliadau addysg fel amgylcheddau lle gellir gweld a chlywed plant. Er bod y canllawiau'n nodi bod rhai plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref wedi dioddef niwed sylweddol, nid yw'n awgrymu bod plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn fwy tebygol o ddioddef niwed sylweddol. Pwysleisiodd y Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref[34] (diweddarwyd ddiwethaf yn 2021) bwysigrwydd gweld a chlywed plant. Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion a enwyd ar gyfer addysg yn y cartref gael hyfforddiant diogelu priodol i nodi unrhyw faterion yn ymwneud â llesiant neu ddiogelu yn ystod eu hymweliadau. Fodd bynnag, mae dal i fod ansicrwydd ynghylch sut i ymateb i blant nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad diweddar â gwasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r newidiadau a grëwyd gan ei chanllawiau statudol yn 2023 mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn sicrhau bod plant yn cael eu gweld a'u clywed.

Pe bai'n rhaid i rieni gofrestru eu plant, fel yn achos addysg yn yr ysgol, byddai proses wedi bod ar gyfer trosglwyddo'r plant o Gymru i Loegr neu i'r gwrthwyneb. Yn yr un modd, gallai proses gofrestru fod wedi rhoi rhywfaint o arweiniad i Mrs X ynghylch o dan ba amgylchiadau y byddai enw plentyn yn cael ei ddileu oddi ar gofrestr a'i drosglwyddo i awdurdod lleol arall. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes un gronfa ddata o blant addysg ddewisol yn y cartref, nac un gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Yn hytrach, mae gan bob awdurdod lleol unigol system gymorth ar gyfer dysgwyr addysg ddewisol yn y cartref yn eu hardal, a ffordd o gofnodi manylion teuluoedd addysg ddewisol yn y cartref y maent yn ymwybodol ohonynt.

Roedd Plentyn A wedi'i gofrestru yng Nghymru, ond roedd symudiadau'r teulu ar draws y ffin yn golygu bod ymweliadau blynyddol yn cael eu colli'n hawdd. Gellir dadlau bod y canllawiau presennol yn adlewyrchu tensiwn heb ei ddatrys rhwng parchu ymreolaeth y teulu a'r angen i blant gael eu gweld a'u clywed gan wasanaethau cyhoeddus fel mesur diogelu ataliol.

Dylid nodi na fyddai'r cynigion ar gyfer cronfa ddata plant sy'n colli addysg sy'n cael eu treialu ar hyn o bryd, na'r gofrestr plant heb fod yn yr ysgol a gynigir o dan y bil yn Lloegr, yn gofrestr lawn o'r holl blant sy'n cael eu haddysg yn y cartref. Fodd bynnag, byddai'r gofrestr arfaethedig o blant heb fod yn yr ysgol yn cynnwys pob plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, ynghyd â rhai plant nad ydynt yn yr ysgol, ond sy'n dal i gael addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol, fel y plant hynny sydd yn yr ysbyty ar gyfer gofal hirdymor. Felly, byddai gweithredu'r bil hwn yn cyflawni'r canlyniad o alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gael darlun cynhwysfawr o'r plant nad ydynt yn yr ysgol yn eu hardal, a chefnogi eu dyletswyddau o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996.

**Mae gan blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref hawl i gael eu gweld a'u clywed**

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bolisïau i gefnogi iechyd, llesiant ac addysg plant o oedran ysgol. Mewn theori, mae gan blant y mae eu rhieni'n dewis eu haddysgu yn y cartref fynediad at yr un hawliau ac amddiffyniadau, ond mae rhwystrau ymarferol posibl. Nid yw'r wers hon yn herio gallu deddfwriaethol rhieni i benderfynu addysgu eu plant yn y cartref. Yn ogystal, mae'n cydnabod

[34] Diogelu Cymru

bod polisïau plant o oedran ysgol yn cael eu cymhwyso trwy systemau a gynlluniwyd ar gyfer y mwyafrif, h.y. plant mewn addysg brif ffrwd, gan adael plant y tu allan i'r strwythurau hyn gyda mynediad cyfyngedig, gellid dadlau, at eu buddion. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i chynllunio i rymuso pobl i gael rheolaeth dros y cymorth y mae ei angen arnynt ac i sicrhau bod asesiadau'n canolbwyntio ar unigolion ac yn gymesur. Un egwyddor allweddol yw bod gwasanaethau'n ataliol ac yn amserol, gan ddarparu'r cymorth cywir ar yr amser cywir, a rhaid i unrhyw asesiad *"rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn"*.

**Ymateb i'r tensiwn rhwng ymreolaeth rhieni a chyfrifoldebau'r wladwriaeth**

Roedd gan Mrs X awydd ers tro byd i addysgu ei phlant yn y cartref a rhoddodd wybod i'r ddau wasanaeth addysg o'i bwriad i ailgychwyn yr arfer hwn ar ôl iddi ddychwelyd i fyw yng Nghymru ym mis Medi 2022. Roedd cyfathrebu da rhwng y ddau wasanaeth addysg ac ychwanegwyd Plentyn A a'i frawd/chwaer at gronfa ddata addysg ddewisol yn y cartref Cymru.

Roedd cyfathrebu da rhwng Mrs X a gwasanaethau addysg ddewisol yn y cartref Cymru trwy negeseuon e-bost. Darparodd wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â sut olwg oedd ar yr addysg yn y cartref hon, gan gynnwys dolenni i adnoddau a gyrchwyd, gwibdeithiau â'r teulu, yn ogystal â sawl llun o'r plant yn cwblhau prosiectau. Derbyniodd Mrs X hefyd y cynnig o bàs hamdden i'w galluogi hi a'i phlant i gael mynediad i'r ganolfan hamdden leol a'i chyfleusterau.

Rhoddodd Mrs X yr wybodaeth ddiweddaraf i'r gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref ar amgylchiadau teuluol Mr X. Rhoddodd Mrs X wybod i'r gwasanaethau addysg ddewisol yn y cartref ar y trefniadau byw y tu allan i'r DU. Dywedodd Mr X yn yr adolygiad hwn mai bwriad y teulu oedd teithio gyda'r plant ac roedd eu haddysgu yn y cartref yn cynnig yr hyblygrwydd i wneud hynny. Rhannodd Mrs X ragor o fanylion â nhw am ei heriau blaenorol gyda'i fisa priodasol, y ddwy ysgol yr oedd y plant yn mynd iddynt, a chyfraniad y gwasanaethau cymdeithasol, a disgrifiodd fwlio gan gymuned yr ysgol a'i theulu yng nghyfraith.

Nid awgrymodd y gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru eu bod yn ymweld â Mrs X, ac nid oedd yn ofynnol iddynt gysylltu â'r naill awdurdod lleol na'r llall i weld a oedd yr wybodaeth a roddodd Mrs X iddynt yn ddilys gan ddefnyddio ffynonellau eraill. Pan oedd y gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref i fod i ymweld â'r plant, yn unol â'r gofynion statudol, rhoddodd Mrs X wybod iddynt eu bod yn dychwelyd i Loegr. Ymwelodd y gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref â'r eiddo ym mis Medi a mis Hydref 2023, ac ni chanfuwyd neb gartref, er bod tystiolaeth o deganau plant. Fe wnaethon nhw gysylltu â'r awdurdod lleol yng Nghymru, ond nid oedd ganddyn nhw unrhyw wybodaeth gyfredol gan nad oedden nhw'n ymwneud â'r teulu ar y pryd. Heb gymorth Mrs X, nid oedd y gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref yn gwybod ble roedd y plant.

Pan gynigiodd y gwasanaeth ymweliad cartref i Mrs X ar ôl iddi ddychwelyd i Gymru, gwrthodwyd hyn, ac anfonwyd adroddiad manwl yn lle hyn. Ymgysylltodd Mrs X drwy neges e-bost â'r gwasanaethau addysg i ddangos bod yr addysg yn y cartref a roddodd i'w phlant yn addas. Fodd bynnag, ni welwyd Plentyn A a'i frawd/chwaer yn uniongyrchol gan y gwasanaethau addysg gan fod eu presenoldeb pedair wythnos o hyd mewn ysgol yn Lloegr wedi dod i ben ar 22 Gorffennaf 2022.

**Dylai plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref gael eu gweld a'u clywed gan wasanaethau iechyd**

Ar adeg ei farwolaeth, roedd Plentyn A wedi'i gofrestru gyda meddyg yng Nghymru, ond nid oedd wedi cael ei weld gan ymarferydd iechyd ers mis Chwefror 2020. Mae rhaglen Plant Iach Cymru[35] yn cydnabod pwysigrwydd meithrin iechyd plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar ac yn amlinellu'r cyswllt y dylai plant dan saith oed ei gael ag ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol. Mae hynny'n cynnwys trosglwyddiadau rhwng ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol a darparu gwasanaethau sgrinio i gefnogi golwg, clyw a thwf plentyn.

Mae rhai byrddau iechyd yng Nghymru wedi cyflwyno nyrsys penodol ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ac wedi darparu gwybodaeth ar-lein am wasanaeth nyrsio ysgolion.[36]Mae'r wybodaeth honno'n cynnwys rhif ffôn ar gyfer plant 11 oed a hŷn i anfon neges destun am eu hanghenion iechyd ac un ar gyfer rhieni sy'n ceisio cymorth ar gyfer iechyd eu plant. Dylid datblygu'r polisïau ac arferion hyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cynnwys plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ac yn cynnwys strategaeth i weld a chlywed plant o oedran ysgol gynradd.

**Cofnodi a rhannu gwybodaeth**

Roedd yna nifer o enghreifftiau o arferion rhannu gwybodaeth da ar hyd y llinell amser. Yn benodol, darparodd yr heddlu yn Lloegr fanylion am ymddygiadau a welwyd gan y plant a Mrs X yn eu cais am unigolyn agored i niwed. Yn ogystal, roedd cofnodion achos yr awdurdod lleol yn Lloegr yn fanwl ac yn rhoi cipolwg ar anghenion y rhieni a'u plant. Dangosodd gwasanaethau iechyd yn Lloegr ddycnwch wrth sicrhau eglurhad o broses yr asesiad o unigolyn agored i niwed a wnaed ynghylch Mrs X ym mis Mai 2022, cyn rhoi'r gorau i'w hymwneud â'r mater.

Cyfeiriwyd y plant at yr awdurdod lleol yng Nghymru gan y cyfleuster iechyd meddwl yn Lloegr ym mis Tachwedd 2022 ar ôl i Mr X godi pryderon ynghylch ei wraig yn gwerthu rhyw. Ymwelodd yr awdurdod lleol yng Nghymru â'r teulu a chofnodi ymateb gwyliadwrus Mrs X i'r honiad, ond nid oedd yn cynnwys eu dadansoddiad o amgylchiadau'r teulu. Roedd cofnodion yr awdurdod lleol yng Nghymru wedi dangos, drwy ddefnyddio blwch ticio, fod y plant wedi cael eu gweld ac y siaradwyd â nhw ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw naratif cysylltiedig o'r hyn a arsylwyd na'r hyn a drafodwyd â'r naill blentyn na'r llall. Mae dadansoddiad yr awdurdod lleol yng Nghymru yn nodi ei bod wedi cymryd dau fis i'r rheolwr gymeradwyo'r penderfyniad i roi'r gorau i ymwneud â'r teulu.

Dangosodd y cyfleuster iechyd meddwl yn Lloegr arferion da wrth wneud atgyfeiriad i'r awdurdod lleol yng Nghymru a cheisio eglurder ynghylch canlyniad yr atgyfeiriad hwnnw. Mae eu hangen i geisio eglurder yn dangos bod yr awdurdod lleol yng Nghymru wedi colli cyfle i adrodd yn ôl i'r atgyfeiriwr ar yr achlysur hwnnw.

Roedd enghreifftiau da o rannu gwybodaeth ar draws y ffin rhwng yr awdurdodau lleol pan symudodd y teulu rhwng Cymru a Lloegr. Roedd Mrs X wedi cofrestru'r plant gyda meddyg teulu yng Nghymru yng ngwanwyn 2022. Felly, roedd dryswch ynghylch ble roedd y teulu'n byw pan wnaed yr asesiad o unigolyn agored i niwed yn Lloegr ym mis Mai 2022. Yn arbennig, ym mis Mai a mis Hydref 2022, cofnododd y bwrdd iechyd yn Lloegr wybodaeth anghywir ynghylch lleoliad y

[35] trosolwg-or-rhaglen-plant-iach-cymru.pdf
[36] Nyrsys Ysgol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

plant, ar ôl nodi'r rhanbarth anghywir o Gymru ar ôl i'r teulu symud dros y ffin. Fodd bynnag, fel y manylwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, bu ymarferwyr iechyd yn ddygn ym mis Mai 2022 i sicrhau bod yr asesiad o unigolyn agored i niwed yn cael ei roi ar waith ac y deuid o hyd i Mrs X a'r plant a'u bod yn cael eu gweld.

**Cyd-destun yr awdurdod lleol a gafodd yr atgyfeiriad ynghylch iechyd meddwl Mrs X**

Y diwrnod cyn marwolaeth Plentyn A ym mis Ionawr 2024, fe ddaeth atgyfeiriad gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn dymuno aros yn anhysbys i law yr awdurdod lleol yng Nghymru. Cododd yr unigolyn bryderon ynghylch iechyd meddwl Mrs X, a oedd wedi dirywio yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae canllawiau cydweithio a gweithdrefnau diogelu yng Nghymru[37] a Lloegr[38] yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd argyfyngau'n digwydd ac y bydd angen gwneud penderfyniadau a gweithredu cyn cychwyn yr ymchwiliadau diogelu plant arferol. Daeth yr atgyfeiriad i law yr awdurdod lleol yng Nghymru a chydnabu ei statws blaenoriaeth, ond nid oedd ganddo ddigon o wybodaeth i benderfynu a oedd y plant mewn perygl uniongyrchol o niwed ai peidio. Roeddent eisoes wedi ymateb i nifer o atgyfeiriadau eraill y diwrnod hwnnw a oedd wedi gofyn am ymateb ar yr un diwrnod. Roedd Plentyn A a'i frawd/chwaer yn cael eu haddysgu yn y cartref, a oedd yn golygu nad oedd yr awdurdod lleol yn gallu cysylltu ag ysgol i geisio rhagor o wybodaeth am les y plant. Yr unig asiantaeth a oedd yn gweld y teulu'n rheolaidd ddiwedd 2023 oedd y cyfleuster iechyd meddwl yn Lloegr, a oedd yn cadw cofnodion o'r ymweliadau a wnaeth Mrs X a'r plant i weld Mr X. Mae'r cofnodion hynny'n adlewyrchu nad oedd unrhyw bryderon amlwg ynghylch iechyd meddwl Mrs X ym mis Rhagfyr 2023.

Mae aelodau'r cyhoedd yn cael gwybod am eu gallu i roi gwybod am bryderon ynghylch asiantaethau plant, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau plant neu elusennau fel yr NSPCC.[39]Mae gan asiantaethau cenedlaethol a lleol wybodaeth fanwl ar wefannau i gefnogi'r cyhoedd i benderfynu pa asiantaeth i gysylltu â hi yn dibynnu ar eu pryder uniongyrchol. Ar ôl myfyrio, ystyriodd yr awdurdod lleol y gallent fod wedi gofyn i'r atgyfeiriwr ddadansoddi a oeddent yn credu bod y plant mewn perygl o niwed uniongyrchol. Fodd bynnag, ni chymerir yn ganiataol bod gan aelodau'r cyhoedd yr arbenigedd i ddadansoddi risgiau cymhleth, a byddai unrhyw farn y gallent ei mynegi yn dal i fod angen dadansoddiad proffesiynol. Roedd yr wybodaeth a rannwyd gan yr atgyfeiriwr, a oedd ond wedi adnabod y teulu am gyfnod byr, yn adlewyrchu dirywiad mewn iechyd meddwl. Nid oedd yr wybodaeth yn yr atgyfeiriad yn cynnwys unrhyw adroddiadau o fygythiadau o hunan-niweidio na niwed i'r plant. Nid oedd unrhyw bryderon uniongyrchol yn amlwg pan, ar hap, yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, gwelodd dau aelod o staff yr awdurdod lleol Mrs X a'r plant yn cerdded i lawr stryd.

Mae'n naturiol bod bodau dynol yn myfyrio ar eu gweithredoedd, a pha benderfyniadau a wnaed a pha rai na wnaed, a ragflaenodd ddigwyddiad mor drasig. Mae'r ymarferwyr a oedd yn ymwneud â Phlentyn A a'i deulu wedi myfyrio'n feirniadol ar eu cyfranogiad, sy'n rhan hanfodol o ddysgu proffesiynol ac atebolrwydd. Rhaid cydnabod pa mor brin yw llofruddiaeth plentyn gan fam a pha mor gymhleth yw hi ei rhagweld. Nid oedd gan Mrs X unrhyw hanes hysbys o salwch meddwl ac mae ymchwil[40] yn dangos bod hyd yn oed gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn ei chael yn anodd iawn nodi seicosis am y tro cyntaf. Fodd bynnag, roedd yr atgyfeiriad yn cynnwys

[37] Diogelu Cymru
[38] Working together to safeguard children 2023.pdf
[39] Report child abuse | NSPCC
[40] Fusar-Poli, P., Oliver, D., Spada, G., Estrade, A., a McGuire, P. (2021). The case for improved transdiagnostic detection of first-episode psychosis: Electronic health record cohort study. Schizophrenia Research, 228, 547–554. https://doi.org/10.1016/j.schres.2020.11.031

adroddiadau pryderus am feddwl rhithdybiol posibl a oedd yn awgrymu bod iechyd meddwl Mrs X yn dirywio.

Yn ymarferol, pan fo pryderon ynghylch rhiant â phlant, caiff y rhain eu hadrodd i dimau plant yr awdurdod leol. Mae hynny'n briodol, gan y gallai fod angen diogelu'r plant hyn. Fodd bynnag, mae'r system hon yn trefnu'r timau hyn fel gwasanaeth brysbennu heb ei gydnabod ar gyfer gwasanaethau oedolion ac iechyd meddwl. Pan fo nifer o atgyfeiriadau amddiffyn plant risg uchel yn dod i law, gellir ystyried atgyfeiriadau ynghylch iechyd meddwl rhieni yn llai o flaenoriaeth na risg sydd eisoes wedi'i nodi. Mae hynny'n fater systemig yn hytrach na beirniadaeth o weithwyr proffesiynol unigol. Byddai tîm yr awdurdod lleol wedi elwa ar gael gweithiwr cymdeithasol iechyd meddwl y gallent ymgynghori â hwy neu y gallent fod wedi trosglwyddo'r atgyfeiriad iddynt ar gyfer ymweliad ar yr un diwrnod i asesu iechyd meddwl Mrs X.

**Y cyd-destun ymarfer ehangach**

Gan adeiladu ar yr wybodaeth o adolygiad ymarfer plant blaenorol[41] yn yr un rhanbarth o Gymru, roedd nifer y cysylltiadau a'r atgyfeiriadau a ddaeth i law yr awdurdod lleol wedi cynyddu o 5,092 yn 2019 i dros 10,000 yn 2023. Pwynt penodol a godwyd yn nigwyddiad dysgu'r adolygiad cyfredol hwn oedd nifer y ffurflenni atgyfeirio amlasiantaeth a ddaeth i law'r awdurdod lleol yng Nghymru gan yr heddlu. Nid yw profiad yr awdurdod lleol yng Nghymru yn brofiad ar ei ben ei hun. Mae gweithredu cadarnhaol i nodi plant sy'n profi cam-drin domestig, ac i sicrhau ymateb amlasiantaeth dibynadwy i'w hanghenion, wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau plant.

Yn ystod y digwyddiad dysgu, cydnabu'r heddlu a'r awdurdod lleol fod rhai hysbysiadau o ddigwyddiadau domestig yn cael eu hanfon at wasanaethau plant yr awdurdod lleol hyd yn oed pan benderfynodd yr heddlu nad oedd unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Mae'r canfyddiad hwnnw'n wahanol i ganllawiau ymarfer[42] sy'n ymwneud ag anghenion diogelu oedolion. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i swyddogion heddlu wneud barn broffesiynol ac adrodd dim ond os oes, neu os yw'n debygol y bydd, risg ddiogelu ac os oes angen gwasanaethau cymorth ar yr oedolyn. Mae'r canllawiau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgynghori ag awdurdod lleol pan fo ansicrwydd. Mae'n bwysig bod hysbysiadau o ddigwyddiadau domestig gan yr heddlu yn cael eu defnyddio'n briodol ac un o argymhellion yr adolygiad hwn yw adolygu'r arfer hwn.

**Safbwyntiau a myfyrdodau'r teulu**

Mam Plentyn A

Dywedodd Mrs X ei bod wedi dewis addysgu Plentyn A a'i frawd/chwaer yn y cartref gan fod hi a Mr X â diddordeb mewn addysg, a'i fod yn gweddu i'w ffordd o fyw. Datblygodd gysylltiadau â rhieni eraill trwy grŵp Facebook a daeth o hyd i adnoddau ar-lein. Dywedodd Mrs X fod ei phlant yn mwynhau addysg yn y cartref â llai o reolau a chwricwlwm diderfyn. Nid oedd Mrs X yn teimlo bod asiantaethau'n cefnogi addysg yn y cartref ac roedd o'r farn bod yn rhaid iddi gytuno i gael y plant i fynd i feithrinfa neu ysgol yn Lloegr. Ar yr adegau hynny, teimlai Mrs X fod ei hawliau wedi cael eu cymryd oddi wrthi.

Roedd Mrs X yn bryderus y byddai'r awdurdod lleol yn tynnu'r plant o'i gofal. Fodd bynnag, ar adegau o argyfwng, fe gysylltodd â'r heddlu i gael cymorth ac ymyrraeth.

Tad Plentyn A

[41] https://cysur.cymru/media/lobkfqsk/adroddiad-cysur-1-2021.pdf
[42] welsh-practice-guidance-for-dealing-with-cases-of-domestic-and-sexual-abuse.pdf

Teimlai Mr X, yn hanesyddol, y gallai'r awdurdod lleol yn Lloegr fod wedi gwneud mwy i gefnogi ei berthynas â Mrs X, yn hytrach na'u gorfodi i fyw ar wahân yn ystod eu hymchwiliadau amddiffyn plant. Eglurodd ei fod yn cefnogi awydd ei wraig i addysgu Plentyn A a'i frawd/chwaer yn y cartref. Fodd bynnag, roedd yn credu y gallai'r plant fod wedi ailymuno â'r ysgol pan fyddent yn hŷn. Ar ôl myfyrio, awgrymodd Mr X y gallai grwpiau addysg ddewisol yn y cartref lleol gynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i blant gymdeithasu. Myfyriodd ymhellach nad oedd symud y teulu i Gymru yn gwasanaethu eu disgwyliadau o lesiant economaidd orau. Roedd llesiant ei deulu yn bwysig a phan oedd gan Mr X bryderon ynghylch amddiffyn y plant pan oedd Mrs X yn gwerthu rhyw, fe gododd y pryderon fel y gallai'r awdurdod lleol ymchwilio iddynt.

<u>Naid a thaid Plentyn A ar ochr ei dad</u>

Nododd Mrs Y fod eu mab, Mr X, a'u merch yng nghyfraith, Mrs X, wedi gweithio'n galed i gefnogi llwyddiant eu teulu. Cawsant gymorth llawn Mr a Mrs Y, er bod eu hoedran a'i wendidau cysylltiedig yn cyfyngu ar yr hyn y gallent ei wneud. Roeddent yn ymwybodol o'r ffactorau lluosog a oedd yn rhoi straen ar Mr a Mrs X, gan gynnwys sicrhau hawl Mrs X i aros yn y DU a methiant eu busnes yn dilyn pandemig COVID-19.

Roedd Mrs X a'r plant wedi byw gyda Mr a Mrs Y ar sawl achlysur, gan gynnwys hydref 2023, pan ddychwelasant i Gymru ychydig wythnosau cyn marwolaeth Plentyn A. Nid oedd ganddyn nhw unrhyw bryderon am iechyd meddwl Mrs X ar y pryd, gan ei disgrifio fel mam wydn a oedd yn brysur yn mynd allan i weithio ac yn cwblhau tasgau ar yr aelwyd. Eglurwyd ganddynt fod Mrs X yn cyflogi gwarchodwyr plant i gynorthwyo gyda gofalu am y plant.

**Themâu'r digwyddiad dysgu**

**Addysg – Cymru a Lloegr**

- Nid oedd llais Plentyn A wedi'i glywed oherwydd ei fod yn cael addysg yn y cartref a gyfyngodd ar y cyfleoedd i weithwyr proffesiynol weld, clywed a deall ei brofiad bywyd.
- Mae angen fframweithiau cyfreithiol cryfach i'w wneud yn ofynnol i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref gael eu cofrestru ac i atal dadgofrestru heb sicrwydd bod y plentyn yn cael ei drosglwyddo i awdurdod lleol newydd.
- Dylai canllawiau cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref, nid rhieni yn unig, ac ystyried mynediad i wasanaethau iechyd, llesiant a diogelu.
- Gall symud dros ffiniau awdurdodau lleol arwain at golli gwybodaeth oni bai fod pryderon ynghylch addysg ddewisol yn y cartref a hanes diogelu yn cael eu hamlygu'n benodol yn ystod y broses o drosglwyddo.
- Ar hyn o bryd, mae gan weithwyr addysg fynediad darllen yn unig i gofnodion awdurdodau lleol. Gallai protocolau rhannu data amlasiantaeth gwell, yn enwedig ar draws ffiniau, gefnogi'r broses o nodi risgiau yn gynharach a sicrhau parhad gofal gwell.

**Iechyd – Cymru**

- Mae rhai byrddau iechyd yng Nghymru wedi cyflwyno nyrs benodol ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, gan wella'r cymorth sydd ar gael ar gyfer carfan gynyddol o blant a allai fod yn anweledig.
- Mae gwasanaeth nyrsio ysgolion Cymru wedi ehangu ei ffurflenni adborth cleifion ar-lein i gynnwys mewnbwn gan blant – gan helpu i godi llais y plentyn wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â rhaglen Plant Iach Cymru.

**Heddlu – Cymru a Lloegr**

- Cynhaliwyd ymweliadau ar y cyd effeithiol gan yr heddlu a gwasanaethau plant i ymgysylltu â Phlentyn A a'i frawd/chwaer.

- Yn dilyn marwolaeth drasig Plentyn A, cymerwyd camau diogelu amserol i gefnogi ei frawd/chwaer, a gwrandawyd ar ei farn ac anghenion emosiynol a'u dogfennu.

- Mae'r broses o rannu gwybodaeth rhwng heddluoedd yn gwella trwy ddefnyddio cronfeydd data cenedlaethol a rennir a thrwy weithio ar y cyd.

- Er gwaethaf cronfeydd data a rennir (e.e. pedwar heddlu yn cyrchu Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu), nid yw gwybodaeth bob amser yn cael ei nodi'n rhagweithiol ar draws rhanbarthau, ac efallai na wneir ceisiadau am wybodaeth genedlaethol oni bai fod angen penodol yn hysbys.

**Awdurdod lleol – Cymru a Lloegr**

- Rhannwyd gwybodaeth yn effeithiol rhwng cyfleuster iechyd meddwl Mr X a'r awdurdod lleol yng Nghymru.

- Roedd tystiolaeth o gyfathrebu trawsffiniol da rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr drwy gydol yr achos.

- Mae cyflwyno cyfarfodydd diogelu misol rhwng timau addysg a gofal cymdeithasol yn hwyluso cydweithio rhyngasiantaethol gwell ac yn sicrhau bod materion diogelu yn cael sylw'n gynnar.

**Gwersi – dadansoddiad sefydliadol**

**Iechyd – Cymru**

- Nid oedd gan y teulu unrhyw gysylltiad parhaus â gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Er eu bod wedi cofrestru gyda meddyg teulu a chael eu gwahodd i apwyntiad claf newydd, ni fanteisiwyd ar y cyfle hwn. Ni wyddai'r bwrdd iechyd am unrhyw bryderon ynghylch diogelu.

- Er bod rhai byrddau iechyd yng Nghymru bellach yn neilltuo nyrs benodol i gefnogi plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref, nid oes unrhyw fecanweithiau ar waith i ymgysylltu â theuluoedd oni bai fod caniatâd yn cael ei roi.

- Dylem gryfhau llwybrau allgymorth i deuluoedd sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, yn enwedig pan nad yw plant yn cael eu gweld fel arall.

**Iechyd – Lloegr**

- Roedd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth da â gwasanaethau addysg.

- Roedd tystiolaeth o chwilfrydedd proffesiynol mewn ymateb i rybudd unigolyn agored i niwed.

- Digwyddodd herio proffesiynol priodol i ofal cymdeithasol plant ynghylch camau diogelu.

- Nid oedd unrhyw drosglwyddiad rhwng y gwasanaethau nyrsio yn yr ysgolion yng Nghymru a Lloegr pan symudodd y teulu, gan olygu nad oedd y bwrdd iechyd yng Nghymru yn ymwybodol o bresenoldeb y plant.

- Byddai protocol trosglwyddo ffurfiol rhwng gwasanaethau nyrsio ysgolion ar gyfer plant addysg ddewisol yn y cartref ar draws ffiniau yn gwella parhad gofal.

**Addysg – Cymru**

- Rhoddwyd gwybod i’r tîm addysg ddewisol yn y cartref yn briodol am ddyfodiad y teulu gan eu cymheiriaid yn Lloegr, ond ni rannwyd unrhyw bryderon ynghylch diogelu na hanes amddiffyn plant blaenorol.
- Gwrthododd Mrs X ymweliadau â’r cartref, ac nid yw'r canllawiau presennol yn caniatáu gorfodi. Cyfyngodd hyn ar allu'r tîm addysg ddewisol yn y cartref i weithredu ar bryderon.
- Mae trafodaethau rhwng timau gofal cymdeithasol plant a thimau addysg ddewisol yn y cartref yn hanfodol pan fo pryderon yn cael eu codi, er mwyn cefnogi dealltwriaeth a rennir a dadansoddiad o risgiau.
- Dylai cyfathrebu trawsffiniol gynnwys pryderon ynghylch addysg ddewisol yn y cartref a chyd-destun diogelu hanesyddol yn benodol.
- Ni chafodd trafodaethau rhwng y cynghorydd addysg ddewisol yn y cartref a'r tîm drws ffrynt eu cofnodi, gan greu bylchau yn y llinell amser.
- Mae angen mwy o graffu proffesiynol wrth adolygu deunyddiau addysg yn y cartref, e.e. deall perthnasedd addysgol dolenni gwefannau a ddarperir gan rieni.

**Addysg – Lloegr**

- Roedd y cyfnod byr o fynd i’r ysgol yn cyd-daro â chyfnod cymharol sefydlog i’r teulu. Roedd y ffaith bod eu harhosiad yn fyr yn cyfyngu ar ddealltwriaeth yr ysgol o brofiad y plant ac asesiad o'u hanghenion addysgol.
- Bu oedi o wythnos cyn rhannu gwybodaeth â chydweithwyr yng Nghymru ar ôl i'r plant symud.

**Heddlu (Cymru)**

- Ychydig iawn o gysylltiad oedd gan yr heddlu â'r teulu. Fodd bynnag, rhoddwyd ymatebion prydlon a phriodol i bob adroddiad yn ymwneud â'r teulu. Yn nodedig, anfonwyd y swyddog ‘priodol’ – o ran sgiliau a phrofiad – i bob galwad am wasanaeth.

**Heddlu – Lloegr**

- Arweiniodd cydweithio amlasiantaethol effeithiol at nodi cam-drin domestig a phlant agored i niwed yn y teulu. Cwblhawyd asesiad o unigolyn agored i niwed, a gwnaed atgyfeiriadau i'r asiantaethau priodol yn unol â pholisi. Fodd bynnag, ar adegau, pan ofynnodd Mrs X am gymorth, gellid bod wedi cael mwy o chwilfrydedd proffesiynol i ystyried ffactorau eraill, gan gynnwys iechyd meddwl.

**Awdurdod lleol – Cymru**

- Cwblhawyd asesiadau yn ystod y ddau gyfnod o ymwneud a chawsant eu cymeradwyo gan reolwyr. Cymeradwyodd y rheolwr un asesiad ddau fis ar ôl ei gwblhau, gan ohirio'r broses o gau’r achos. Ers hynny, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno safonau ymarfer newydd sy'n sicrhau mai dim ond pan fydd plant wedi cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol yr wythnos flaenorol y mae rheolwyr yn cymeradwyo rhoi'r gorau i ymwneud.
- Gwelwyd y plant, cofnodwyd eu dymuniadau a'u teimladau, a chysylltwyd â'r asiantaethau perthnasol (gan gynnwys y tîm addysg ddewisol yn y cartref a’r tîm iechyd). Gallai

cofnodion rhyngweithio ac arsylwi fod wedi bod yn fwy manwl, yn enwedig o ymweliadau unigol a gwaith uniongyrchol gyda phlant.

- Trafodwyd atgyfeiriad ymlaen i'r Tîm o Amgylch y Teulu a rhannwyd gwybodaeth â'r heddlu ynghylch yr honiad bod Mrs X yn gwerthu rhyw.
- Gallai arfer mwy cadarn fod wedi cynnwys gofyn i'r aelod o'r cyhoedd a gododd bryderon ym mis Ionawr 2024 am ei ddadansoddiad o’r risg.

**Gwella systemau ac ymarfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer gwelliant:*

Argymhellion cenedlaethol

1. Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r egwyddorion, y pwerau a'r dyletswyddau a nodir ym Mil Lles Plant ac Ysgolion Lloegr yn ei fframwaith deddfwriaethol ei hun ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Argymhellion rhanbarthol

2. Hyrwyddo hawliau a llesiant plant a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, trwy adnoddau a gynhyrchwyd ar y cyd ac wedi'u cynllunio gyda phlant ac ar eu cyfer.

3. Adolygu hyfforddiant diogelu amlasiantaeth i sicrhau bod ymarferwyr a rheolwyr yn deall profiadau cyd-destunol plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

4. Adolygu trefniadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o ddigwyddiadau domestig gan yr heddlu i wasanaethau plant.

5. Asesu ac adolygu argaeledd y cymorth a hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr sy'n cael gwybod am bryderon ynghylch iechyd meddwl rhieni ac yn ymateb iddynt.

<table>
<tr><th colspan="4">Datganiad gan yr adolygydd (adolygwyr)</th></tr>
<tr><td>Adolygydd 1</td><td>Dr Donna Peach</td><td>Adolygydd 2<br>(fel y bo'n briodol)</td><td>Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</td><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyn i mi ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:<br><br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â’r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td><td colspan="2">Cyn i mi ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:<br><br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â’r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adolygydd 1.<br>(Llofnod)</td><td colspan="2">Adolygydd 2<br>…...................................................<br>(Llofnod)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Enw<br>(Mewn llythrennau bras) Dr Donna Peach</td><td colspan="2">Enw ………………………………………<br>(Mewn llythrennau bras)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad 29/8/2025</td><td colspan="2">Dyddiad<br>……………………………………….</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cadeirydd y panel adolyg<br>(Llofnod)</td></tr>
<tr><td colspan="4">Enw Dr Holly Gordon<br>(Mewn llythrennau bras)</td></tr>
<tr><td colspan="4">Dyddiad 29/08/2025</td></tr>
<tr><td colspan="4">At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig<br><br>Dyddiad cael yr wybodaeth: ………………………………………<br>(dyddiad)<br><br>Llythyr cydnabod wedi'i anfon at gadeirydd y bwrdd:<br>……………………………………(dyddiad)<br><br>Dosbarthwyd i’r arolygiaethau / arweinwyr polisi perthnasol:<br>……………………………………….(dyddiad)</td></tr>
</table>

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGC | | | |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi | | | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi | | | |
| | | | |

**Atodiad 1**: Cylch Gorchwyl

## Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 1/2024 (Sir Benfro)

- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** – Helen Goodridge
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** – Holly Gordon
- **Adolygydd Annibynnol** – Donna Peach

**Tasgau craidd:**

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu er budd pennaf y plentyn ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau.
- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol, neu hanes am y plentyn a/neu aelodau'r teulu, yn hysbys ac wedi'i hystyried wrth asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau gan weithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn?
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal yr asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).
- Ceisio cyfraniadau at yr adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu pan fo modd a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr a nodi'r adnoddau y mae eu hangen.

**Tasgau penodol y panel adolygu**

- Nodi a chomisiynu adolygwyr i weithio gyda'r *panel adolygu* yn unol â chanllawiau wrth lunio adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw

gamau gweithredu uniongyrchol a gymerwyd eisoes.

- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol am adolygwyr annibynnol ac aelodaeth y panel.
- Cynhyrchu llinell amser unol, dadansoddiad cychwynnol a deilliannau dysgu.
- Casglu ac ystyried gwybodaeth gyd-destunol berthnasol mewn perthynas â'r teulu, pan fo hyn yn cefnogi archwilio dysgu mewn perthynas â'r cyfnod amser y cytunwyd arno ar gyfer yr adolygiad.
- Ymgymryd â chysylltiadau trawsffiniol ag asiantaethau perthnasol fel y bo angen, er mwyn sicrhau bod cyfranogiad pob asiantaeth gyda'r teulu yn cael ei ddeall a'i adlewyrchu yn yr adolygiad.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr, gan gynnwys nodi'r rhai sydd am fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi, cyn y digwyddiad ac ar ei ôl, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio trefniadau cyswllt yr adolygwyr gyda'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad, gan ystyried prosesau cyfochrog yn briodol ac ar y cyd â chydweithwyr ac asiantaethau perthnasol sy'n ymwneud â'r teulu.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer plant i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r *panel adolygu* yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr adolygiad ymarfer plant (gweler yr adran ar rannu gwybodaeth a chyfrinachedd).

**Tasgau penodol yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer:**

- Cytuno a chymeradwyo cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer adolygiad ymarfer plant.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r bwrdd eu hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu'r adolygiad ymarfer plant i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu ar ran y bwrdd.

**Tasgau Bwrdd Diogelu Plant CYSUR**

- Bydd yr uned fusnes, ar ran y bwrdd, yn hysbysu Llywodraeth Cymru am gyflawni adolygiad ymarfer plant.
- Bydd yn cadw at amserlenni ar gyfer ei gwblhau, yn unol â'r canllawiau

statudol.

- Yn cael adroddiad terfynol yr adolygiad ymarfer plant a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo'n ffurfiol.
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i'w ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd cadeirydd y bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i ddiddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

**Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd**

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth y maent yn berchen arni neu sy'n deillio ohonynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel isod) yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag adolygiad ymarfer plant, mae pob asiantaeth wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny, ac fe'i cedwir o dan ddealltwriaeth a rennir, fel a ganlyn:
    - Cynhelir cyfarfodydd y panel o dan arweiniad *'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl': Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
    - Ystyrir bod datgelu gwybodaeth y tu allan i'r panel y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod yn achos o dorri cyfrinachedd y testun ac o dorri cyfrinachedd yr asiantaethau cysylltiedig.
    - Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan gadeirydd y panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod.'
    - Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti o'r panel amlasiantaeth a rhaid gwneud atgyfeiriad at reolwr busnes y bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.